Universal Credit
Credyd Cynhwysol

# Credyd Cynhwysol ar Waith

Hydref 2014

# Cynnwys


Rhagair 3

Crynodeb Gweithredol 4

1. Credyd Cynhwysol ar waith: yr achos dros newid 5

2. Credyd Cynhwysol: faint o newid sydd ei angen 7

2.1 Hyrwyddo cyfrifoldeb personol 8

2.2 Trawsnewid y farchnad lafur 10

2.3 Adeiladu system sy'n ymateb i newidiadau mewn enillion 13

2.4 Cymorth i'r rhai sydd ei angen fwyaf 15

2.5 Symleiddio'r system budd-daliadau 19

2.6 Trawsnewid y ffordd y mae'r Adran yn gweithredu 20

2.7 Creu gwasanaeth digidol diogel 22

3. Credyd Cynhwysol: ei gyflawni'n ddiogel 25

4. Credyd Cynhwysol: costau a buddiannau 31

5. Credyd Cynhwysol: y dystiolaeth o effaith sy'n dod i'r amlwg 34

6. Casgliad 47






# Rhagair

Bedair blynedd yn ôl, cyhoeddwyd Papur Gwyn gan y Llywodraeth o'r enw '*Credyd Cynhwysol: lles sy'n gweithio*'. Yna, aethom ati i ddiwygio'r wladwriaeth les - gan gynnal y broses ailgynllunio bwysicaf ers glasbrint Beveridge ar ôl y rhyfel, er mwyn creu system budd-daliadau sy'n addas ar gyfer y 21ain ganrif - Credyd Cynhwysol.

Roedd dirfawr angen cyflwyno newid pellgyrhaeddol. Yr hyn a welsom oedd system gymhleth ac anhrefnus, nad oedd yn llwyddo i hyrwyddo gwaith ac a oedd yn cosbi dewisiadau cyfrifol, gan adael miliynau o bobl yn ddi-waith ac yn ddibynnol am ormod o amser.

Er nad oedd eraill yn anghytuno bod angen diwygiad. Y broblem oedd bod pobl yn ystyried bod diwygio lles ar raddfa mor fawr yn cael ei ystyried yn dasg rhy anodd neu beryglus. Dywedai llawer na ellid trawsnewid y system budd-daliadau'n llwyr.

Bedair blynedd yn ddiweddarach, mae'r papur hwn yn nodi ein cynnydd o ran cyflwyno Credyd Cynhwysol: adfer cymhellion i weithio, adnewyddu tegwch, a thrawsnewid bywydau yr un pryd. Bellach, rydym yn cyflwyno Credyd Cynhwysol ledled y DU ym mhob Canolfan Gwaith ac Awdurdod Lleol o ddechrau 2015, gan gyflwyno Credyd Cynhwysol i bob cymuned. Drwy wneud hyn, yr un fydd ein blaenoriaeth, sef cyflwyno'r rhaglen yn ddiogel, gan brofi a dysgu bob cam o'r ffordd.


Mae Credyd Cynhwysol yn cael effaith gadarnhaol lle y mae wedi'i gyflwyno, gyda'r dystiolaeth a welwyd hyd yma yn dangos bod pobl sy'n cael Credyd Cynhwysol yn gwneud mwy i ddod o hyd i waith, ac i symud i mewn i gyflogaeth yn gyflymach. Yng ngogledd-orllewin Lloegr, mae'r gwasanaeth newydd bellach yn fyw ar gyfer pobl sengl a chyplau a bydd ar gael i deuluoedd maes o law; bydd yn rhedeg mewn mwy nag un Canolfan Gwaith mewn wyth erbyn diwedd 2014.

Mae'r cynnydd hwn yn glod i waith caled a phenderfyniad Llywodraeth ganolog a Llywodraeth leol gyda'i gilydd - yn atgyfnerthu partneriaethau cymunedol wrth i ni adfer y rhwyd diogelwch lles. Wrth i ni nodi ein llwyddiant wrth gyflawni hyd yma, hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl bobl sydd wedi cyfrannu dros y pedair blynedd diwethaf, ac y mae eu hymdrechion yn hanfodol er mwyn gwireddu ein cynllun yn y dyfodol.

Pan fydd yn llwyr weithredol, y bwriad yw y bydd Credyd Cynhwysol yn cyflawni hyd at £35 biliwn o fuddiannau economaidd dros ddeng mlynedd. Ond yn bwysicach fyth, bydd yn cyflwyno newid i'n heconomi, yn ogystal ag i'r unigolion a'r teuluoedd mwyaf difreintiedig. Yn anad dim, dyna pam rydym wedi brwydro mor galed i gael Credyd Cynhwysol. Wrth i ni gyflawni'r diwygiad mawr hwn, rydym yn newid bywydau pobl, gan sicrhau eu bod yn dilyn y llwybr cywir o ddibyniaeth i annibyniaeth.



Y Gwir Anrh. Iain Duncan Smith AS
Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau



Yr Arglwydd David Freud
Y Gweinidog Diwygio Lles

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn egluro sut mae Credyd Cynhwysol yn gweithio.

Mae Pennod Un yn cofnodi'r gwendidau sylweddol yn y system les a etifeddwyd, a'r rhesymeg dros gyflwyno Credyd Cynhwysol. I ormod o bobl, roedd y system a etifeddwyd yn golygu byd lle nad oedd digon yn cael ei ddisgwyl ganddynt, a lle nad oedd gwaith yn talu. Er gwaethaf gwelliannau diweddar, mae bron i dair miliwn o bobl yn dal ar y prif fudd-daliadau allan o waith, ac mae dros hanner ohonynt wedi bod arnynt ers dros bum mlynedd. Drwy greu un system i'r sawl sydd mewn gwaith a'r sawl sydd allan o waith, mae Credyd Cynhwysol wedi'i gynllunio i sicrhau bod gwaith yn talu, a bod mwy o waith yn talu; a bod y bobl sy'n cael y credyd yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am ddod o hyd i waith.

Mae Pennod Dau yn egluro maint y gwaith i gynllunio a chyflwyno Credyd Cynhwysol, gan ddwyn sawl budd-dal ynghyd a'u trawsnewid. Mae Credyd Cynhwysol yn cwmpasu'r broses o gyflwyno sawl newid pwysig ar yr un pryd, y byddai pob un ohonynt yn rhaglen fawr ei hun. Mae'r bennod yn dangos yr elfennau allweddol, a rhai o'r materion niferus yr aed i'r afael â hwy eisoes wrth gael Credyd Cynhwysol i'r sefyllfa bresennol.

Mae Pennod Tri yn nodi'r strategaeth ofalus ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol, gan adlewyrchu maint yr ymdrech, a'r ymrwymiad llwyr i gyflwyno Credyd Cynhwysol yn ddiogel i aelwydydd. Yn wahanol i lawer o raglenni eraill yn y gorffennol, yn enwedig y broses gychwynnol o gyflwyno credydau treth, mae Credyd Cynhwysol wedi'i ehangu'n raddol, ar gyflymder synhwyrol, yn hytrach na chan ddilyn amserlen fympwyol. Mae Credyd Cynhwysol eisoes yn weithredol mewn 63 o ardaloedd Canolfannau Gwaith, ac erbyn y Nadolig bydd yn weithredol ledled gogledd-orllewin Lloegr i bron bob unigolyn a fyddai fel arall wedi gwneud cais newydd i gael Lwfans Ceisio Gwaith. Bydd y broses genedlaethol o gyflwyno Credyd Cynhwysol i bobl sengl a fyddai fel arall wedi gwneud cais i gael Lwfans Ceisio Gwaith yn dechrau ar ddechrau 2015.

Mae Pennod Pedwar yn nodi'r gwerth economaidd sylweddol a ddisgwylir yn sgil cyflwyno Credyd Cynhwysol. Mae'r achos busnes cymeradwy ar gyfer yr holl raglen yn cyflwyno buddiannau economaidd gros o hyd at £7 biliwn y flwyddyn mewn cyflwr sefydlog. Daw'r buddiannau yn bennaf yn sgil y ffaith bod Credyd Cynhwysol yn annog mwy o bobl i weithio, a'r incymau uwch ar gyfer aelwydydd incwm is.

Mae Pennod Pump yn nodi'r lefelau amrywiol a ddefnyddir i fesur y dystiolaeth o effaith Credyd Cynhwysol. Wrth i'r llwyth achos gynyddu, ac wrth i'r effeithiau ddod yn amlycach dros amser, bydd y sail dystiolaeth yn mynd yn fwy cadarn. Er hyn, ceir arwyddion calonogol bod hawlwyr eisoes yn cydnabod y cymhellion newydd a'r disgwyliadau, ac yn ymddwyn yn wahanol o ganlyniad i hynny, a cheir tystiolaeth - yn enwedig gan staff profiadol Canolfannau Gwaith - bod hawlwyr yn rhoi cynnig ar fwy o waith na'r hyn a welwyd yn y gorffennol.

Daw'r adroddiad hwn i'r casgliad bod Credyd Cynhwysol yn ddiwygiad trawsffurfiol, a gyflwynir mewn modd diogel.





# 1. Credyd Cynhwysol ar waith: yr achos dros newid

Mae marchnad lafur y DU wedi ymateb yn dda i'r argyfwng ariannol byd-eang, ac mae wedi cefnogi'r ffaith ein bod wedi dychwelyd at dwf economaidd. Gyda thros 30 miliwn o bobl yn gweithio, y lefel uchaf a gofnodwyd erioed, mae'r gyfradd gyflogaeth bellach yn 73%.

Roedd y lefel uchaf o ddiweithdra yn is nag mewn cyfnodau blaenorol o ddirwasgiad, er gwaethaf y dirywiad economaidd dyfnach, ac mae diweithdra bellach yn gostwng yn gyflymach nag erioed o'r blaen ac yn gyflymach na holl wledydd eraill y G7. Mae amryw o resymau dros y perfformiad cryf hwn, yn cynnwys cyfundrefn marchnad lafur weithredol y DU, sy'n ei gwneud yn ofynnol i hawlwyr geisio gwaith, a mesurau Cael Prydain i Weithio Llywodraeth y DU, a diwygiadau lles.

Yn ôl Ddirprwy Lywodraethwr Banc Lloegr: "Mewn rhai meysydd o'r farchnad lafur, yn enwedig y pen heb lawer o sgiliau, mae pethau sy'n cynyddu'r cyflenwad llafur. Rwy'n ystyried newidiadau i reolau lles yn benodol sy'n golygu y gall pobl fod yn llai tebygol ar y ffin o fod am aros yn ddi-waith, neu hyd yn oed aros y tu allan i'r llafurlu. Gall eu hannog i ddychwelyd".

Mae llawer gormod o bobl o hyd nad yw'r system les bresennol yn gweithio iddynt. Nid yw gwaith yn talu i ormod o bobl. Mae cymhlethdod y system yn golygu ei bod yn beryglus iddynt geisio gweithio. Mae'r sawl sy'n gwneud dewisiadau cyfrifol yn cael eu cosbi yn y pen draw.

**Cymhellion ariannol gwan yn y system bresennol**
- byddai tua 900,000 o aelwydydd yn colli 70% neu fwy o'u henillion pe byddent yn symud i mewn i waith am ddeg awr yr wythnos ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol; a
- byddai tua 800,000 o unigolion mewn gwaith â chyflog isel yn colli 80% neu fwy o unrhyw gynnydd yn eu henillion.

**Risgiau o geisio gweithio yn y system bresennol**
- ni fydd gan hawlwyr sy'n gweithio mwy na 16 awr mewn un wythnos hawl i gael budd-daliadau allan o waith mwyach. Gallai fod ganddynt hawl i gael cymorth ariannol mewn gwaith drwy gredydau treth, ond byddai symud i mewn i waith ac yn ôl allan o waith o bosibl yn peryglu eu haelwyd a'u hincwm. Mae'r ansicrwydd hwn yn rhwystr, yn enwedig i'r sawl sy'n chwilio am waith byrdymor.

Source: DWP, Policy Simulation Model.

Cyflwynwyd Credyd Cynhwysol er mwyn mynd i'r afael â'r problemau strwythurol sy'n bodoli yn y system les a etifeddwyd. Mae Credyd Cynhwysol wrth wraidd ymrwymiad y Llywodraeth i ddiwygio'r Wladwriaeth Les, er mwyn sicrhau ei bod yn decach ac yn fwy fforddiadwy, gan drechu tlodi a dibyniaeth ar les tra'n cefnogi'r aelwydydd sydd fwyaf agored i niwed.

Cynlluniwyd y Credyd Cynhwysol ar gyfer y canlynol:
- i sicrhau bod gwaith yn talu;
- i feithrin annibyniaeth a chyfrifoldeb personol;
- i gynorthwyo mwy o aelwydydd i mewn i waith; ac,
- i dyfu'r economi.

Drwy greu un system i'r sawl sydd mewn gwaith a'r sawl sydd allan o waith, mae Credyd Cynhwysol yn sicrhau bod *gwaith yn talu, a bod mwy o waith yn talu*, i bawb:
- gan sicrhau nad yw'r newid i/o waith yn peryglu incwm aelwydydd mwyach: caiff yr hawl sylfaenol i gael Credyd Cynhwysol ei addasu er mwyn adlewyrchu enillion;
- a gall hawlwyr sydd mewn gwaith gadw eu holl Gredyd Cynhwysol a bydd eu henillion yn aros gyda'r Lwfansau Gwaith newydd, sy'n fwy hael na'r enillion cyfatebol a ddiystyrir yn y system a etifeddwyd; a
- gyda chyfradd safonol ar gyfer gostwng Credyd Cynhwysol wrth i enillion gynyddu, mae'r gyfradd o 65% yn llawer is na'r gyfradd yn y system a etifeddwyd ar gyfer llawer o hawlwyr, felly mae hawlwyr yn gweld cynnydd ariannol am weithio ychydig yn fwy o oriau.

Felly mae Credyd Cynhwysol yn dileu risgiau gwrthnysig, rhwystrau at waith, a chymhlethdod sylfaenol, er mwyn gwella cymhellion. Mae hyn oll yn clirio'r ffordd i sicrhau bod pobl yn canolbwyntio ar ddod o hyd i waith, yn hytrach na chyfrifo p'un a fydd swydd benodol o fudd iddynt.

**Hyblygrwydd**
Hyd yn oed os bydd pobl yn ennill digon i ddechrau er mwyn symud yn llwyr oddi ar Gredyd Cynhwysol, mae'r rheolau yn golygu y gallant ailgydio yn eu hawliad yn ddigon rhwydd os bydd eu hamgylchiadau'n newid o fewn chwe mis. Mae hyn yn golygu y gall aelwydydd ennill profiad gwerthfawr o waith ac adeiladu eu profiad personol, heb boeni y bydd yn amharu ar eu hincwm.

**Symlrwydd**
Mae Credyd Cynhwysol hefyd yn dileu'r gofyniad i roi gwybodaeth debyg ond ychydig yn wahanol i sefydliadau gwahanol. Er enghraifft, byddai angen i unigolyn sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith, sydd â phartner ac un plentyn, ac sy'n byw mewn llety rhent, hysbysu DWP, CThEM a'i Awdurdod Lleol pan fyddai'n dechrau cyflogaeth llawn amser, a byddai pob un ohonynt yn addasu ei fudd-daliadau. O dan Gredyd Cynhwysol, caiff y broses hon o hysbysu sawl sefydliad ei hepgor.

Mae Credyd Cynhwysol hefyd yn sefydlu cydberthynas newydd rhwng y Wladwriaeth ac aelwydydd. Mae'n meithrin annibyniaeth a chyfrifoldeb personol yn bwrpasol, gan hyrwyddo'r hunangynhaliaeth sy'n hanfodol er mwyn i bobl gael gwaith a'i gadw. Mae aelwydydd yn cael mwy o help i ddod o hyd i waith, gyda Hyfforddwyr Gwaith personol, a chymorth wrth gyllidebu. Ynghyd â'r cymorth hwn, ceir disgwyliadau o'r newydd i ddod o hyd i waith, ac i gynyddu enillion ar ôl cael gwaith, gan gyfuno hawliau a chyfrifoldeb.

Drwy gynnig cymhellion ariannol go iawn ynghyd â mwy o gyfrifoldeb personol, nod Credyd Cynhwysol yw sicrhau bod mwy o bobl yn fwy gweithgar wrth chwilio am waith. O ganlyniad, mae pob cyflogaeth unigol yn llwyddiant i'r aelwyd, ac o bosibl i ddyfodol pob aelod o'r aelwyd, gan hyrwyddo symudedd cymdeithasol.

Gyda'i gilydd, ar draws yr economi mae hyn yn debygol o arwain at effaith facro-economaidd hirdymor. Mae maint economi yn adlewyrchu'r galw am lafur a'r llafur sydd ar gael. Dros amser, mae cynnydd parhaus yn nifer y bobl sydd ar gael ac sy'n chwilio am waith yn arwain at lefel uwch o gyflogaeth, ac economi fwy.



Credyd Cynhwysol ar Waith

# 2. Credyd Cynhwysol: faint o newid sydd ei angen

Mae'r achos dros Gredyd Cynhwysol yn gymhellol, ac mae wedi ennyn cefnogaeth eang. Mae'n dasg anferth sy'n cwmpasu'r broses o gyflwyno sawl newid pwysig yr un pryd, y byddai pob un ohonynt yn heriol ei hun. Mae'r bennod hon yn egluro'r prif elfennau, ac yn dangos rhai o'r materion yr ydym eisoes wedi mynd i'r afael â hwy er mwyn troi damcaniaeth gymhellol yn realaeth ymarferol.

Yn ei thro, mae'r bennod hon yn cwmpasu'r canlynol:
- hyrwyddo cyfrifoldeb personol;
- trawsnewid y farchnad lafur;
- adeiladu system sy'n ymateb i newidiadau mewn enillion;
- cymorth wedi'i dargedu i'r rhai sydd ei angen fwyaf;
- symleiddio'r system budd-daliadau;
- trawsnewid y ffordd dy mae'r Adran yn gweithredu; ac,
- adeiladu gwasanaeth digidol diogel.

Er mwyn sicrhau bod y broses gymhleth hon yn ddiogel, mae'r Rhaglen Credyd Cynhwysol wedi mabwysiadu dull *Profi a Dysgu*. Ym mhob cam o'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol, mae'r Adran yn asesu ac yn gwerthuso'n ofalus sut mae prosesau'n gweithredu er mwyn cefnogi'r newidiadau a fwriedir i bolisïau ac ymddygiad. Mae *Profi a Dysgu* yn galluogi'r Adran i wella'r gwasanaeth yn barhaus, a sicrhau y caiff Credyd Cynhwysol ei gyflwyno'n ddiogel.

Mae llawer o'r newidiadau i bolisïau a phrosesau eisoes wedi'u gwneud o ganlyniad i *Profi a Dysgu* ac mae'r bennod hon yn egluro sawl enghraifft o'r gwelliannau hyn, gan weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, CThEM a phartneriaid eraill.

Drwy'r dull *Profi a Dysgu*, caiff Credyd Cynhwysol ei gyflwyno mewn modd diogel.

## 2.1 Hyrwyddo cyfrifoldeb personol

Mae Credyd Cynhwysol yn meithrin annibyniaeth a chyfrifoldeb personol yn bwrpasol. Mae'n gwneud hynny drwy gyfres o newidiadau pwysig i'r ffordd y mae'n ofynnol i hawlwyr ryngweithio gyda'r gwasanaeth.

Er mwyn annog a hyrwyddo cyfrifoldeb personol, mae Credyd Cynhwysol yn cyflwyno:

- Ymrwymiad Hawlydd, a Hyfforddwr Gwaith
- anogaeth i hawlwyr reoli eu cyllid, pan fyddant mewn gwaith ac allan o waith

### Ymrwymiad Hawlydd, a Hyfforddwr Gwaith: prosesau ceisio gwaith a chymorth wedi'u teilwra

Mae'r Ymrwymiad Hawlydd yn annog hawlwyr i gymryd mwy o gyfrifoldeb am baratoi eu hunain ar gyfer gwaith, ac am chwilio am swydd. Mae wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio dulliau deall ymddygiad, er mwyn sicrhau bod hawlwyr yn gwneud y canlynol:

- pennu eu nodau uchelgeisiol eu hunain;
- teilwra eu proses o chwilio am swydd ar gyfer y nodau hynny a'u hamgylchiadau; a,
- deall o'r cychwyn bod yn rhaid iddynt weithredu yn ôl eu hymrwymiad er mwyn cael Credyd Cynhwysol.

Mae hawlwyr a staff yn gadarnhaol ynghylch yr Ymrwymiad Hawlydd:

- Mae Wendy Grant, Hyfforddwr Gwaith yn Rugby, yn nodi: "mae'r pwyslais yn bendant ar yr hawlydd i gymryd cyfrifoldeb ei hun."
- Meddai Nathanial, cyn hawlydd Credyd Cynhwysol yng Nghanolfan Byd Gwaith Oldham: "Fe wnes i Ymrwymiad Hawlydd, a oedd yn gytundeb yn nodi'r holl gamau y byddwn yn eu cymryd i ddod o hyd i waith, a chefais fy ngwthio i gael mwy o gymhelliant wrth chwilio am swydd."

Yn dilyn peilot llwyddiannus yr Ymrwymiad Hawlydd, cafodd ei gyflwyno ledled y DU i bawb sy'n gwneud ceisiadau newydd ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith. Mae hon yn enghraifft dda o'r modd rydym yn cyflwyno nodweddion Credyd Cynhwysol yn raddol mewn ffordd ddiogel, sy'n lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno rhaglen mor drawsnewidiol.

Mae mwy na 26,300 o staff Canolfannau Gwaith eisoes wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r Ymrwymiad Hawlydd. Mae'r hyfforddiant yn rhoi sgiliau newydd iddynt, gan eu helpu i symud oddi wrth roi cyngor a monitro cydymffurfiaeth i fod yn Hyfforddwr Gwaith: rhywun sy'n gwrando, ac a all helpu hawlydd i feddwl am ei nodau gwaith a'i ddyheadau ei hun, gan ofyn cwestiynau agored a gweithio er mwyn goresgyn rhwystrau.

### Annog aelwydydd i reoli eu cyllid eu hunain

Telir Credyd Cynhwysol fel taliad misol unigol, er mwyn adlewyrchu'r byd gwaith. Caiff 75 y cant o gyflogeion eu talu bob mis, ond mae'r system fudd-daliadau a etifeddwyd yn golygu bod hawlwyr yn dibynnu ar gael incwm bob pythefnos. Drwy gyfateb amlder taliadau lles â'r byd gwaith, anogir aelwydydd i ddysgu sut i gyllidebu'n fisol, ac i ddileu un o'r pryderon a all fel arall danseilio proses o symud i mewn i waith.

Er mwyn cefnogi hyn, cynigir help gyda chyllidebu i'r hawlwyr Credyd Cynhwysol. Drwy *Profi a Dysgu*, mae'r broses o gynnig cymorth cyllidebol wedi'i gwella.





Yn wreiddiol, cynigiwyd cymorth cyllidebu fel rhan o'r broses brysbennu gychwynnol dros y ffôn lle na châi llawer o bobl eu cyfeirio at gymorth cyllidebu. Drwy adborth gan Hyfforddwyr Gwaith, a'r hyn a ddysgwyd o Brosiectau Arddangos Taliadau Uniongyrchol, gwelodd yr Adran bod rheoli arian yn bwnc personol iawn, a bod angen llawer o ymddiriedaeth rhwng yr unigolyn sy'n ceisio cyngor a'r unigolyn sy'n rhoi'r cyngor. Nid oedd cynnig trafod cyllidebu dros y ffôn yn arwain at adeiladu digon o ymddiriedaeth.

Gan ystyried hyn, bydd Hyfforddwyr Gwaith bellach yn cychwyn sgwrs wyneb yn wyneb â phob hawliwr er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael gan y Gwasanaeth Cyngor Ariannol. Os bydd yr hawlydd a'r Hyfforddwr Gwaith yn cytuno y byddai cyngor ariannol penodol o fudd iddo, caiff yr hawlydd ei gyfeirio at ei Awdurdod Lleol i gael help ychwanegol.

Mae Credyd Cynhwysol yn hyrwyddo cyfrifoldeb personol drwy dalu'r elfen dai yn uniongyrchol i'r aelwyd, a fydd wedyn yn gyfrifol am dalu'r rhent i'w landlord. Mae hyn yn hollol wahanol i'r system les a etifeddwyd, lle nad oes gan lawer o hawlwyr sy'n rhentu gan landlordiaid cymdeithasol unrhyw gyfrifoldeb o ran talu eu rhent. Drwy sicrhau bod hawlwyr yn dod i arfer â rheoli taliadau rhent pan fyddant allan o waith, caiff rhwystr posibl arall sy'n atal pobl rhag derbyn gwaith ei ddileu.

Wrth gwrs, bydd rhai pobl yn cael trafferth i dalu eu rhent. Ar gyfer y sawl sydd yn yr amgylchiadau hyn, mae Credyd Cynhwysol yn cynnig Trefniant Talu Amgen. O'r cychwyn mae'r Rhaglen Credyd Cynhwysol wedi gweithio'n agos iawn gyda'r sector rhent cymdeithasol gan gynnwys landlordiaid, sefydliadau tai cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol.

Mae'r bartneriaeth hon wedi golygu y caiff y prosesau Credyd Cynhwysol eu datblygu'n gyflym, gan ddysgu o achosion cynnar. Pan awgrymodd adborth cynnar a gwybodaeth reoli nad oedd prosesau'n gweithredu yn ôl y disgwyl, sefydlodd Credyd Cynhwysol dîm ymroddedig i reoli tai ac achosion Trefniant Talu Amgen. Mae'r tîm hwn yn cynnwys arbenigwr budd-dal tai yr Awdurdod Lleol, i helpu i gyflymu'r amser y mae'n ei gymryd i roi Trefniant Talu Amgen ar waith.

Mae cyfres newydd o 'ysgogwyr' hefyd wedi'u rhoi ar waith i nodi achosion o ddiffyg talu rhent i landlordiaid a sicrhau na fydd hynny'n digwydd dro ar ôl tro. Os bydd aelwyd yn cronni ôl-ddyledion sy'n cyfateb i fis o rent, cynigir cymorth cyllidebu, a chaiff Trefniant Talu Amgen ei ystyried. Os bydd yr ôl-ddyledion yn cyrraedd swm sy'n cyfateb i ddau fis o rent, caiff trefniant talu a reolir i'r landlord ei roi ar waith. Gellir adennill unrhyw ôl-ddyledion rhent a gronnir yn yr eiddo presennol. O fis Tachwedd gall yr Adran ddidynnu ar gyfradd uwch ar gyfer yr ôl-ddyledion hyn pan ddaw Rheoliadau newydd yn weithredol.

Mae ein partneriaid wedi croesawu'r datblygiadau hyn a thrydarodd Riverside House "Welcome news. New rules #universalcredit allowing jobcentres to inform landlords of claims @insidehousing" a dywedodd y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol yn Universal Credit One Year In: "DWP has listened to the evidence and implemented real service improvements".

Bydd yr Adran yn parhau i ddatblygu dull gweithredu'r Credyd Cynhwysol mewn perthynas â thai, gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid cyflawni Awdurdodau Lleol a landlordiaid. Mae hyn yn cynnwys diwygiad rheoliadol er mwyn sicrhau y gellir rhannu data, strategaeth paratoi landlordiaid Credyd Cynhwysol, a datblygu cynlluniau newid a symud ar y cyd - y mae pob un o'r rhain yn mynd rhagddynt bellach.

## 2.2 Trawsnewid y farchnad lafur

Mae Credyd Cynhwysol yn gofyn llawer mwy gan bobl i fodloni eu cyfrifoldebau yn gyfnewid am gael budd-dal.

Er mwyn trawsnewid y farchnad lafur, mae Credyd Cynhwysol yn cyflwyno:
- cyfundrefnau marchnad lafur unigol ar gyfer pob aelod o aelwyd
- cyfundrefn newydd i annog pobl i gynyddu eu henillion ar ôl iddynt gael gwaith

### Cyfundrefnau marchnad lafur unigol ar gyfer pob aelod o aelwyd

O gymharu â'r system budd-daliadau lles, mae'r Adran yn amcangyfrif y bydd dwy filiwn ychwanegol o ddinasyddion[1] yn dod yn rhan o gyfundrefn marchnad lafur weithredol o dan Gredyd Cynhwysol. Gofynnir i fwy o hawlwyr baratoi a chwilio am waith, neu gynyddu eu henillion ar ôl iddynt gael gwaith, yn gyfnewid am gael Credyd Cynhwysol.

Bydd pob hawlydd yn creu Ymrwymiad Hawlydd ar ddechrau ei hawliad; contract ydyw rhwng unigolyn sy'n cael Credyd Cynhwysol a'r Wladwriaeth. Yn wahanol i'r system a etifeddwyd, cytundeb parhaus yw'r Ymrwymiad Hawlydd y gellir ei deilwra i adlewyrchu amgylchiadau unigol ond ar gyfer y rhan fwyaf o hawlwyr mae'n sicrhau bod chwilio am waith yn swydd llawn amser ei hun. Mae hyn yn newid diwylliannol sylweddol sy'n hanfodol i'r ffordd y mae Credyd Cynhwysol yn trawsnewid y Wladwriaeth Les.

Er mwyn rhoi'r lefel gywir o gymorth mae Credyd Cynhwysol yn cynnwys lefelau gwahanol o amodoldeb, gan adlewyrchu amgylchiadau ac enillion unigolion ac aelwydydd gwahanol. Caiff y gofynion hyn eu personoli a'u teilwra i bob hawlydd, a chânt eu hadolygu a'u diwygio wrth i amgylchiadau newid. Caiff gofynion eu cofnodi ar yr Ymrwymiad Hawlydd.

Dangosir y chwe lefel amodoldeb o dan Gredyd Cynhwysol isod. Gall yr un gofynion neu ofynion gwahanol fod yn berthnasol i aelodau gwahanol o aelwyd. Wrth i amgylchiadau newid bydd hawlwyr hefyd yn newid rhwng lefelau amodoldeb gwahanol.

**Ffigur 1: Credyd Cynhwysol: cyfundrefnau amodoldeb**

| | |
|---|---|
| Gweithio uwchlaw'r trothwy amodoldeb - dim gofynion sy'n gysylltiedig â gwaith | Enillion unigolion neu aelwydydd uwchlaw'r lefel y mae amodoldeb yn berthnasol. Gofynnol er mwyn hysbysu DWP am newid i amgylchiadau, yn enwedig os ceir risg o ostyngiad mewn enillion neu o golli swydd. |
| Mewn gwaith ond enillion islaw'r trothwy amodoldeb | Mewn gwaith ond gallai ennill mwy, neu ddim yn gweithio ond sydd â phartner ag enillion isel. |
| Mewn gwaith ond enillion islaw'r trothwy amodoldeb Chwiliad dwys am swydd: yr holl ofynion sy'n gysylltiedig â gwaith | Ddim yn gweithio, neu sydd ag enillion isel iawn. Mae'n ofynnol i'w hawlydd gymryd camau gweithredu er mwyn sicrhau gwaith - neu i gael mwy o waith / gwaith sy'n talu mwy. Mae'r Hyfforddwr Gwaith yn eu cynorthwyo i gynllunio eu chwiliad gwaith a gweithgarwch paratoi. |
| Cyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith | Disgwylir iddo weithio yn y dyfodol. Rhiant unigol / prif ofalwr plentyn rhwng 1 a 2 oed. Mae'n ofynnol i'r hawlydd fynychu cyfweliadau rheolaidd er mwyn cynllunio ar gyfer pan fydd yn dychwelyd i'r gwaith. |
| Paratoi at waith | Disgwylir iddo ddechrau paratoi ar gyfer y dyfodol hyd yn oed gyda gallu cyfyngedig i weithio ar y pryd. Disgwylir i'r hawlydd gymryd camau cyfrifol i baratoi ar gyfer gwaith yn cynnwys Cyfweliadau sy'n Canolbwyntio ar Waith. |
| Dim gofynion sy'n gysylltiedig â gwaith | Dim disgwyl iddo weithio ar hyn o bryd. Iechyd neu gyfrifoldeb gofalu yn atal yr hawlydd rhag gweithio neu baratoi ar gyfer gwaith. |

1. Yn seiliedig ar fodelu Credyd Cynhwysol pan fydd wedi'i gyflwyno'n llawn.





Er bod y prif gategorïau amodoldeb wedi'u diffinio, mae'r Adran yn parhau i Brofi a Dysgu beth yw'r ffordd orau o'u gweithredu, drwy gyfres o dreialon, yn cynnwys:

- **Y Rhaglen Gweithgaredd Dwys** sy'n profi effaith gweithgaredd cynnar, dwys sy'n canolbwyntio ar waith o ran symud hawlwyr i mewn i waith yn gyflymach. Mae'r rhaglen yn sefydlu cwricwlwm o weithgareddau i'r hawlydd eu cwblhau, yn cynnwys ymarfer sgiliau gwneud cais am swyddi a sgiliau cyfweld, yn ogystal â chynnal chwiliad dwys am swydd. Mae'n rhoi cyfrifoldeb ar yr hawlydd i ystyried ei chwiliad am waith fel swydd llawn amser, ac mae'n sicrhau y caiff pob gweithgaredd sy'n canolbwyntio ar waith ei gwblhau i safon uchel. Dylai'r ddau beth hyn helpu hawlwyr i gael gwaith cyn gynted â phosibl.

- **Treialon segmentu** a fydd yn datblygu sail dystiolaeth gadarn ar gyfer cadarnhau at bwy y mae'r Adran yn targedu ymyriadau penodol a phryd y bydd yn gwneud hynny a sut y bydd yn rhyngweithio â hawlwyr gwahanol.

**Amodoldeb**

Defnyddiwyd tystiolaeth gynnar i wella'r prosesau a'r cysylltiadau ar gyfer yr hawlwyr hynny a fethodd â mynychu apwyntiadau Credyd Cynhwysol.

Yn y system a etifeddwyd, byddai hawliad pobl sy'n methu Cyfweliad Adolygu Gwaith yn cael ei gau, felly ni fyddai rhai a oedd yn symud i mewn i waith yn hysbysu'r Adran; ni fyddent yn mynychu apwyntiad.

Yn y broses wreiddiol pan fyddai hawlydd yn methu â mynychu Cyfweliad Adolygu Gwaith ar gyfer Credyd Cynhwysol, byddai'r hawliad ar agor o hyd ond byddai sancsiwn yn cael ei weithredu. Nid oedd y broses hon yn gweithio'n dda i ddechrau i'r rheini a fethodd fynychu am eu bod wedi dod o hyd i waith; cafodd rhai hawlwyr sancsiynau ar sawl achlysur ar ôl methu a chofnodi eu bod wedi symud i mewn i waith. Ar ôl nodi'r mater hwn, cafodd y broses sancsiynau ei gwella fel mai dim ond un sancsiwn penagored fyddai'n cael ei weithredu, y gellid ei godi pan fyddai hawlwyr yn ailddechrau cydymffurfio â gofynion penodol, fel rhannu gwybodaeth gyda DWP, gan roi cymhelliant clir i wneud y peth iawn.

Mae'r Adran hefyd yn gwella cysylltiadau er mwyn sicrhau bod hawlwyr yn llawn ddeall pwysigrwydd mynychu cyfweliadau a rhoi gwybod i DWP pan fyddai eu hamgylchiadau'n newid. Nod cysylltiadau yw lleihau sancsiynau, a helpu hawlwyr i ddeall eu hopsiynau a'r cymorth sydd ar gael os ydynt wedi cael sancsiwn. Mae'r Uned Cysylltiadau Hawlwyr a sefydlwyd yn ddiweddar yn adolygu'r cysylltiadau mewn perthynas â sancsiynau ac yn rhoi cyngor arbenigol a dealltwriaeth o ymddygiad er mwyn sicrhau bod hawlwyr yn eu deall a'u bod yn annog yr ymddygiadau priodol.

### Cyfundrefn newydd i annog pobl i gynyddu eu henillion ar ôl iddynt gael gwaith

Yn y system a etifeddwyd nid oes llawer o gymorth na gofyniad, os o gwbl, i'r sawl sydd mewn gwaith ar hyn o bryd ac yn cael credydau treth i gynyddu eu henillion, ac i ymdopi heb gymorth gan y Wladwriaeth yn y pen draw. Mae Credyd Cynhwysol yn newid hynny. Mae'r system wedi'i chynllunio i roi cymorth ac anogaeth am y troi cyntaf i helpu pobl i gynyddu eu henillion pan fyddant mewn gwaith.

Felly, eto fel rhan o *Profi a Dysgu*, bydd y rhaglen Credyd Cynhwysol yn lansio treialon rheoli ar raddfa fawr ar hap yn 2015 er mwyn archwilio beth yw'r ffordd orau y gall Hyfforddwyr Gwaith helpu hawlwyr i ddatblygu ar ôl iddynt gael gwaith. Mae hyn yn adeiladu ar y cymorth a gynigir heddiw, yn galluogi'r rhaglen i ddysgu beth sy'n gweithio, i brofi achos dros fuddsoddi yn y dyfodol, ac felly i lywio a datblygu'r cymorth a gyflwynir ledled y DU.

Bydd y rhaglen hefyd yn lansio amrywiaeth o dreialon gyda chyflogwyr, gan archwilio dulliau arloesol o gefnogi datblygiad ymhlith cyflogeion ar gyflog isel tra'n cael effaith gadarnhaol ar dwf busnes hefyd.





## 2.3 Adeiladu system sy'n ymateb i newidiadau mewn enillion

Mae Credyd Cynhwysol yn rhoi cymorth i'r sawl sydd mewn gwaith ac sydd allan o waith. Er mwyn gwneud hyn, mae wedi datblygu system ar gyfer defnyddio data misol newydd ar enillion, a rheolau ar gyfer y sawl sy'n hunangyflogedig.

Er mwyn cynorthwyo'r sawl sydd mewn gwaith, mae Credyd Cynhwysol yn cyflwyno:

- cyswllt uniongyrchol â data misol newydd CThEM ar enillion
- cymorth wedi'i dargedu'n well ar gyfer y sawl sy'n hunangyflogedig

### Cyswllt uniongyrchol â data enillion TWE amser real newydd CThEM

Mae CThEM wedi cyflwyno system newydd ar gyfer casglu gwyobdaeth TWE reolaidd gan gyflogwyr a darparwyr pensiynau wrth i daliadau unigol gael eu gwneud. Mae bellach yn ofynnol i gyflogwyr roi manylion TWE i CThEM ar neu cyn diwrnod cyflog eu cyflogeion. Mae'r Wybodaeth Amser Real hon yn y bôn wedi gwella cywirdeb a phrydlondeb taliadau TWE.

Mae Gwybodaeth Amser Real yn ganolog i gynllun a gweithrediad Credyd Cynhwysol. Mae llif amser real o wybodaeth rhwng cyflogwyr, CThEM a DWP yn galluogi'r Adran i addasu pob taliad Credyd Cynhwysol misol er mwyn adlewyrchu'r enillion y mis hwnnw - hyd yn oed taliadau a wneir ar ddiwrnod yr asesiad.

Mae'r rhaglen Credyd Cynhwysol wedi creu cyswllt rhwng systemau CThEM a DWP, ac wedi datblygu'r systemau TG er mwyn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir yn awtomatig. Mae hyn yn gweithio'n dda iawn i'r mwyafrif o hawliadau Credyd Cynhwysol lle mae'r hawlydd mewn gwaith. Mae hefyd yn cynnig ffordd o nodi datganiadau ffug gan y sawl sy'n dweud eu bod allan o waith: eisoes, ceir enghreifftiau o hawlwyr sy'n rhoi'r gorau i'w hawliadau ar unwaith pan gânt eu hawlio ar y dechrau gan ddata enillion diweddar. Nid oedd hyn yn bosibl cyn cyflwyno Gwybodaeth Amser Real a Chredyd Cynhwysol.

Mae'r broses o gyflwyno Gwybodaeth Amser Real wedi bod yn newid mawr i gyflogwyr a CThEM fel ei gilydd. Er bod y perfformiad yn dda, disgwylir iddi gymryd peth amser i gyflogwyr ddod i arfer â'r broses. Nid yw pob cyflogwr yn cofnodi enillion ar amser, nac yn gywir eto. Yn yr achosion prin hyn, mae'r Adran wedi gorfod datblygu prosesau a rheolau priodol er mwyn sicrhau na fydd hawlwyr dan anfantais. Eto, mae hyn oll yn rhan o'r dull *Profi a Dysgu* o ran cyflwyno Credyd Cynhwysol yn ddiogel.

### Cymorth wedi'i dargedu'n well ar gyfer y sawl sy'n hunangyflogedig

Mae Credyd Cynhwysol hefyd wedi datblygu polisïau a gweithdrefnau newydd i ddiogelu'r trethdalwr rhag y rhai sy'n datgan eu bod yn hunangyflogedig, ond nad yw eu busnesau yn creu llawer o incwm yn rheolaidd. Yn y systemau a etifeddwyd, byddent yn cael credydau treth er mwyn gwneud iawn am y diffyg incwm, heb unrhyw rwymedigaeth i gynyddu eu henillion.

Mae Credyd Cynhwysol wedi mynd i'r afael â hyn drwy greu prawf o "hunangyflogaeth â thâl". Nod hyn yw cadarnhau p'un a chaiff yr hunangyflogaeth ei threfnu, ei datblygu a'i gweithredu gyda'r disgwyliad y gwneir elw. Mae'r sawl nad ydynt yn pasio'r prawf hwn yn wynebu mwy o amodau i ddod o hyd i fwy o waith, yn gyfnewid am eu Credyd Cynhwysol.

Dyma ddwy enghraifft o'r gwaith manwl sy'n angenrheidiol i greu system llawer symlach, gyda chymhellion llawer gwell, tra'n diogelu'r system honno rhag camdriniaeth hefyd.

Ym mis Ebrill 2013 dechreuodd Credyd Cynhwysol ddefnyddio Gwybodaeth Amser Real ar gyfer gwybodaeth enillion er mwyn gostwng yn sylweddol y dyfarniad lle mae'r enillion uwchlaw'r Lwfans Gwaith ar gyfer yr hawlwyr hynny sydd mewn gwaith.

Drwy fonitro'r system a dadansoddi'r data yn ofalus daeth yn amlwg bod rhai cyflogwyr yn nodi gwybodaeth yn anghywir, er enghraifft categoreiddio enillion fel pensiynau neu ostwng rhai ffigurau blwyddyn hyd yma gan greu swm enillion negyddol. Mae'r Adran wedi cydweithio'n agos â CThEM ac wedi ymgysylltu â mwy na 1000 o gyflogeion a chyfryngwyr eraill, er mwyn egluro sut mae'r system Gwybodaeth Amser Real a'r system Credyd Cynhwysol yn rhyngweithio. Pwysleisiodd y gwaith hwn pa mor bwysig ydyw bod cyflogwyr yn cymryd cymaint o ofal â phosibl i gyflwyno gwybodaeth gywir yn brydlon i CThEM oherwydd y caiff yr hyn a nodir ganddynt ei adlewyrchu'n awtomatig mewn cyfrifiad dyfarniad Credyd Cynhwysol. Hefyd, mae system wella wedi'i gweithredu. Mae'r ddau fesur hyn wedi gostwng y gyfradd camgymeriadau.

Bydd y Gwasanaeth Digidol gwell yn parhau i ddefnyddio Gwybodaeth Amser Real ac mae'n defnyddio'r hyn a ddysgwyd hyd yma i lywio cynllun ei wasanaeth.

Mae'r dull *Profi a Dysgu* hefyd wedi'i gymhwyso i drin enillion dros ben. Mae'r Adran wedi datblygu cynigion ar gyfer ymgynghoriad i sicrhau y gall incwm a enillwyd neu golled a wnaed mewn cyfnod blaenorol gael ei gynnwys yn yr asesiad Credyd Cynhwysol. Mae hwn yn gynnig integredig i fynd i'r afael â sawl mater pwysig: y posibilrwydd i gyflogwyr a chyflogeion gydgynllwynio er mwyn sicrhau'r hawliad Credyd Cynhwysol gorau posibl; annhegwch posibl rhwng hawlwyr ar incymau tebyg a gaiff eu talu ar gylchoedd gwahanol; ac adborth gan randdeiliaid y dylid gallu adlewyrchu colledion y sawl sy'n hunangyflogedig o fewn y system Credyd Cynhwysol.

Yn ogystal â'r newidiadau uchod mae'r dull Profi a Dysgu wedi golygu y gellid mireinio a gwella'r gwasanaeth mewn sawl maes o ran polisïau, cynllun a darpariaeth, yn cynnwys:

**Gofal plant:** mireinio polisïau yn seiliedig ar adborth gan ddarparwyr gofal plant a rhanddeiliaid eraill. O ganlyniad, mae DWP yn cynyddu swm y costau cymwys y gall Credyd Cynhwysol eu cwmpasu o 70% i 85%, a diwygio deddfwriaeth i'r gwasanaeth digidol ganiatáu cymorth mwy hyblyg gyda chostau gofal plant yn cael eu talu ymlaen llaw (caiff hyn ei gyflwyno yn ddiweddarach eleni).

**Elfen plant:** diwygio rheoliadau Credyd Cynhwysol er mwyn rhoi hawliad i'r elfen plant pan fydd plentyn yn derbyn gofal gan Awdurdod Lleol am gyfnodau byr fel gofal seibiant, a pan fydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi plentyn sy'n derbyn gofal gyda'i riant am gyfnod byr (Gorffennaf 2013).

**Tai:** cyflwyno deddfwriaeth i wella'r broses o rannu data er mwyn cynorthwyo hawlwyr a hefyd i reoli'r broses o adennill ôl-ddyledion rhent yn fwy effeithiol (yn ddiweddarach eleni).

**Gofynion sy'n gysylltiedig â gwaith:** diwygio amodoldeb Credyd Cynhwysol i olygu y gall fod yn ofynnol i unigolyn sengl sy'n gyfrifol am blentyn 3 neu 4 oed gydymffurfio â gofyniad i baratoi ar gyfer gwaith, yn ogystal â gofyniad i gael cyfweliad sy'n canolbwyntio ar waith (Ebrill 2014).

**Dioddefwyr trais domestig:** rheoliadau Credyd Cynhwysol diwygiedig i gyflwyno diffiniad ehangach o "drais domestig" ym mhob rhan o'r Llywodraeth (Hydref 2013).





## 2.4 Cymorth i'r rhai sydd ei angen fwyaf

Er mwyn cynorthwyo'r rhai sydd ei angen fwyaf, mae Credyd Cynhwysol yn cyflwyno:

- Cymorth Cynhwysol - wedi'i ddarparu'n lleol

Mae'r Adran yn cydnabod y bydd angen i rai pobl gael help gyda gofynion newydd Credyd Cynhwysol, fel deall y system newydd, mynd ar-lein a rheoli cyllideb fisol. Ni ddylid gwrthod mynediad i fudd-daliadau cymwys am fod salwch, anabledd neu amgylchiadau anodd yn rhwystro pobl rhag gwneud cais. Dyna pam y cafodd 'Credyd Cynhwysol - wedi'i ddarparu'n lleol' (yr arferwyd ei alw'n Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol Credyd Cynhwysol) ei greu.

Partneriaeth gyflenwi yw Cymorth Cynhwysol. Mae DWP, Awdurdodau Lleol a darparwyr gwasanaethau (fel Landlordiaid Cymdeithasol ac Elusennau) yn cydweithio er mwyn cytuno ar y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau yn lleol. Y nod yw darparu gwasanaeth cyfannol, cydgysylltiedig, yn enwedig ar gyfer hawlwyr sy'n agored i niwed a'r sawl ag anghenion cymhleth, er mwyn helpu'r hawlydd i symud o ddibyniaeth lles.

Eto, mae'r partneriaethau cyflenwi hyn yn seiliedig ar dystiolaeth a phrofiad fel rhan o *Profi a Dysgu*. Yr haf hwn, cyhoeddodd yr Adran un ar ddeg o dreialon ledled Prydain Fawr, a ddechreuodd ym mis Medi.

Mae'r treialon yn profi:

- trefniadau gwahanol ar gyfer brysbennu anghenion aelwydydd, er mwyn teilwra gwasanaethau personol ac integredig; a
- rhannu data, sgiliau ac ystadau er mwyn creu'r sylfeini cywir integredig yn lleol i gynorthwyo mwy o aelwydydd i mewn i waith cyn y broses o ehangu Credyd Cynhwysol.

Mewn ymateb i gyhoeddiad yr Adran ym mis Hydref 2014 y byddai Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno, dywedodd Cadeirydd y Gymdeithas Llywodraeth Leol, y Cynghorydd David Sparks:


"Mae Cynghorau yn gwbl ymrwymedig i gynorthwyo eu trigolion sy'n dibynnu ar fudd-daliadau i ddychwelyd i'r gwaith. Mae'n dda bod dull diweddaraf y llywodraeth o roi Credyd Cynhwysol ar waith bellach yn cydnabod y cyfraniad anferth y mae'n rhaid i gynghorau a'u staff ei wneud, achos y mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol wedi bod yn ei wneud mewn trafodaethau â DWP dros y 18 mis diwethaf.

Mae gweinidogion wedi ymrwymo i adeiladu ar arbrofion sy'n bodoli eisoes o ran cydweithio, rhannu swyddfeydd a rhannu data yn fwy effeithiol. Mae profiad mewn prosiectau peilot wedi dangos bod dull lleol cydgysylltiedig yn arwain at ganlyniadau gwell ac yn gwasanaethu hawlwyr yn well. Mae'r ffaith y gall pobl fanteisio ar wasanaethau a ddarperir gan DWP ac Awdurdodau Lleol o dan yr un to yn rhan bwysig o hynny.

Edrychwn ymlaen at weld hynny'n dod yn norm wrth i Gredyd Cynhwysol ddatblygu. Bydd y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn parhau i weithio gyda DWP er mwyn sicrhau bod y broses gyflwyno hon yn gwneud y gorau o sgiliau cynghorau a gwybodaeth leol."

Credyd Cynhwysol ar Waith

**Ffigur 2: Safleoedd treialu ffurfiol**




"Mae'n newyddion gwych bod yr Alban wedi cael ei dewis i gynnal dau dreial Cymorth Cynhwysol. Mae hyn yn dangos y partneriaethau ardderchog sydd gennym â chynghorau Argyll a Bute a Dinas Dundee. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ni ddatblygu cymorth ychwanegol ar gyfer pobl ddi-waith sy'n byw yn y cymunedau hyn."

Yr Alban: Denise Horsfall, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwaith ar gyfer DWP yr Alban

"Mae'n bleser gennym gael ein dewis fel ardal treial Cymorth Cynhwysol. Mae'r treial hwn yn gyfle pwysig i atgyfnerthu'r gwaith a wnawn mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau a phartneriaid allanol eraill ac i sicrhau bod cymorth priodol ar waith ar gyfer dinasyddion y mae'r diwygiadau lles yn effeithio arnynt. Mae Cymorth Cynhwysol yn ein galluogi i archwilio dulliau arloesol gan fynd i'r afael â materion fel cynhwysiant digidol ac ariannol ac mae'n adeiladu ar waith a wneir eisoes ledled y Sir."

Sir Gaerfyrddin: Y Cynghorydd Pam Palmer, Hyrwyddwr Gwrthdlodi ac Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddatblygu Cynaliadwy

''Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn hynod o falch ein bod wedi cael ein dewis i gyflawni'r treial hwn a fydd yn helpu i lunio Credyd Cynhwysol yn y dyfodol. Un o'n prif flaenoriaethau yw galluogi ein cymunedau i helpu eu hunain a rhan o'r pecyn cymorth hwn yw annog pobl i oresgyn unrhyw heriau neu rwystrau posibl wrth ddychwelyd i'r gwaith."

Blaenau Gwent: Councillor Jim McIlwee, Executive Member for Financial Management and Strategy

"Rydym yn hynod falch o gael ein dewis i fod yn rhan o dreial Cymorth Cynhwysol. Bydd hyn yn adeiladu ar y bartneriaeth ardderchog sydd gan yr Adran â'n cydweithwyr yn Awdurdodau Lleol De Tyneside a Northumberland a bydd yn sicrhau bod pobl yn ein cymunedau yn cael cymorth gwell."

Northumberland a De Tyneside: Paul Chapman, Rheolwr Dosbarth DWP ar gyfer Northumberland, Tyne a Wear

## Astudiaeth achos 1:

### Awdurdod Achos Barnet - paratoi ar gyfer Credyd Cynhwysol



Mae Awdurdod Achos Barnet yn arwain y ffordd o ran cyflwyno gwasanaethau cymorth i gymunedau lleol o dan un to, er mwyn sicrhau ei bod yn haws i bobl gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Cyflwynwyd Hyfforddwyr y Ganolfan Byd Gwaith i ymuno â'i dimau cyflogaeth, iechyd, arian, tai a thimau cyngor eraill. Caiff y partneriaethau lleol cryf hyn eu datblygu wrth baratoi ar gyfer Credyd Cynhwysol.

Mae Prif Weithredwr Awdurdod Lleol Barnet, Andrew Travers, yn egluro sut mae cydweithredu wedi cael ei ymgorffori yn ffordd Barnet o weithio:

"Yn ogystal â'r egwyddor o gydweithio, mae hefyd yn golygu lleoli timau gyda'i gilydd yn ffisegol. Er enghraifft, mae Hyfforddwyr y Ganolfan Byd Gwaith wedi'u lleoli yn ein swyddfeydd ochr yn ochr â'r timau iechyd y cyhoedd, tai a chymorth cyllideb. Mae hyn wir yn gwneud gwahaniaeth drwy alluogi i'r tîm ddarparu gwasanaeth cymorth mwy cyflawn."

Sefydlodd Andrew Dasglu Diwygio Lles Barnet ym mis Mehefin 2013. Roedd o'r farn y byddai crynhoi adnoddau yn rhoi gwasanaeth gwell i bobl ac y byddai'n fwy cost-effeithiol. Un o lwyddiannau cyntaf y ganolfan aml-asiantaeth oedd cyflwyno gwasanaeth mentora iechyd a helpodd lawer o bobl gael gwaith.

Meddai Mr Travers: "Gwaith yw'r llwybr gorau at sefydlogrwydd ariannol ond gwyddom fod llawer o rwystrau amrywiol sy'n atal pobl rhag cyflawni hyn. Er enghraifft, gall iselder a phryder olygu ei bod yn anoddach i bobl gael gwaith, ond pan fydd tîm iechyd y cyhoedd yn cydweithio â'r Ganolfan Byd Gwaith, bydd pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i oresgyn y rhwystrau hynny."

Mae Awdurdod Lleol Barnet yn gwybod pan gaiff Credyd Cynhwysol ei gyflwyno, y bydd yn rhaid i bobl gymryd mwy o gyfrifoldeb personol o ran paratoi ar gyfer gwaith a dod o hyd i waith gyda'r camau gweithredu a ddisgwylir ganddynt wedi'u nodi mewn Ymrwymiad Hawlydd. Mae Barnet wedi mabwysiadu dull tebyg:

Meddai Mr Travers, "Rydym yn atodi amodau at rywfaint o'r cymorth a ddarparwn ac yn cynnig cymhellion er mwyn helpu pobl i newid eu hymddygiad. Er enghraifft, os bydd angen i rywun gael help i dalu eu rhent gallem wneud Taliad Tai Dewisol ond yn gyfnewid am hynny efallai y byddwn am iddynt ymrwymo i ymgysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith neu i weithio gyda Barnet Homes i ddod o hyd i lety mwy fforddiadwy."

Mae Awdurdod Lleol Barnet wedi gosod y sylfaen ac mae'n barod ar gyfer Credyd Cynhwysol. Bydd sicrhau bod y partneriaethau hollbwysig ar waith yn helpu i sicrhau bod y newid yn llwyddiant.





## 2.5 Symleiddio'r system budd-daliadau

Mae'r system les a etifeddwyd yn gymhleth yn ei strwythur, ei gweinyddiaeth a'r modd y mae'r amodau cymhwyso gwahanol yn rhyngweithio â'i gilydd. Mae Credyd Cynhwysol am symleiddio hyn, ac felly crëwyd fframwaith deddfwriaethol newydd.

Er mwyn symleiddio'r system budd-daliadau a etifeddwyd, mae DWP wedi gwneud y canlynol:

- creu fframwaith deddfwriaethol newydd
- gweithredu un system o gymorth yn seiliedig ar brawf modd

Ers 2010, mae'r Adran wedi adeiladu ar sylfeini'r papurau Gwyrdd a Gwyn er mwyn creu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Credyd Cynhwysol gan weithredu Deddf Diwygio Lles 2012 a rheoliadau dilynol. Er mwyn gweithredu'r fframwaith cyfreithiol, pennwyd 13 o gyfresi o brif reoliadau. Ar ôl pennu'r fframwaith deddfwriaethol mae'r Adran wedi datblygu Credyd Cynhwysol gyda thimau polisi a chynllunio yn cydweithio er mwyn sicrhau y caiff bwriad strategol Credyd Cynhwysol ei gyflawni drwy ei gynllun.

Mae Credyd Cynhwysol yn cyflwyno system gymorth unigol newydd yn seiliedig ar brawf modd i bobl o oedran gweithio sydd mewn gwaith neu allan o waith. Caiff pob elfen ei hasesu mewn un cais sy'n dileu'r angen i wneud cais am fudd-daliadau gwahanol sy'n seiliedig ar brawf modd gan asiantaethau gwahanol. Caiff cymorth ar gyfer costau tai, plant a chostau gofal plant eu hintegreiddio yn y budd-dal newydd. Mae hefyd yn cynnig elfennau ychwanegol i bobl anabl a gofalwyr.

**Credyd Cynhwysol - Cywirdeb Taliadau Ebrill 2013 i'r presennol**

Hyd yn oed gyda'r broses o symleiddio o un gyfres o reolau, i ddisodli'r chwe chyfres sy'n sail i'r system a etifeddwyd, mae'r prawf modd ac amodau hawliad eraill yn ei gwneud yn ofynnol i'r system Credyd Cynhwysol berfformio cyfrifiadau cymhleth. Roedd angen i brosesau blaenorol i gyflwyno budd-daliadau newydd, er enghraifft Lwfans Ceisio Gwaith a Lwfans Cymorth Cyflogaeth, gael cyfnod helaeth i ymsefydlu, gyda llawer o newidiadau yn cael eu gweithredu cyn cyrraedd lefel gywirdeb dderbyniol.

Mae Credyd Cynhwysol wedi gwneud cynnydd cyflym er mwyn cyflawni cyfrifiadau talu cywir - mae cyfrifiadau a grëwyd gan systemau bellach yn gywir mewn 97% o achosion, sy'n rhagori ar berfformiad ar gam cymharol ar systemau cynharach. Mae hyn yn adlewyrchu cyflymdra'r broses o gyflwyno Profi a Dysgu yn y maes hwn, gan wella cywirdeb y system o 65% pan broseswyd y cant o geisiadau Credyd Cynhwysol cyntaf yn 2013.

Drwy gydol y broses o weithredu Credyd Cynhwysol, mae'r Adran wedi rhoi rheoliadau ar waith i ficro reoli achosion wrth i'r system ddatblygu. Mae hyn yn sicrhau y caiff pob dyfarniad ei wirio gan y tîm gweithrediadau cyn gwneud taliad. I'r rheini lle caiff mater ei nodi, caiff taliadau eu hailgyfrifo er mwyn sicrhau y caiff aelwydydd eu talu'n gywir.

## 2.6 Trawsnewid y ffordd y mae'r Adran yn gweithredu

Mae'r Adran yn trawsnewid y ffordd y mae'n darparu ei gwasanaethau.

Er mwyn trawsnewid y ffordd y mae'r Adran yn darparu ei gwasanaeth, mae Credyd Cynhwysol yn cyflwyno:

- Paru Swyddi Ar-lein a Chanolfannau Gwaith digidol
- timau amlddisgyblaethol o fewn Canolfannau Gwasanaeth

### Darparu gwasanaethau yn ddigidol

Gan baratoi ymhell cyn i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno ledled y DU, mae'r Adran eisoes wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae'n gweithredu, gan groesawu sianelau digidol newydd.

Rhoddwyd Paru Swyddi Ar-lein ar waith ym mis Tachwedd 2012. Mae hyn yn galluogi ceiswyr swyddi i gael mynediad ar-lein, unrhyw bryd, i wasanaeth recriwtio hollol awtomataidd. Mae'n helpu hawlwyr i ddod o hyd i waith, ac yn ei gwneud yn haws i'r sawl sydd mewn gwaith i ddod o hyd i swyddi gwell ac i gynyddu eu horiau. Mae hefyd yn sicrhau effeithlonrwydd busnes i'r Adran, gan ryddhau adnoddau i gael eu defnyddio yn hytrach i helpu'r cwsmeriaid sydd fwyaf agored i niwed ac sydd anoddaf eu helpu.

Mae'r broses o osod 6,000 o gyfrifiaduron newydd mewn Canolfannau Gwaith ledled y DU hefyd yn helpu ceiswyr gwaith i ddod i arfer â defnyddio gwasanaethau ar-lein. Mae hyn yn cyflwyno amgylchedd modern, gan sicrhau bod sianelau digidol ar gael ym mhob Canolfan Gwaith i hawlwyr eu defnyddio pan nad oes ganddynt fynediad gartref. Caiff mynediad WiFi a chyfrifiaduron newydd eu gosod ym mhob Canolfan Gwaith erbyn 31 Hydref 2014.

### Rhoi cymorth parhaus

O dan y system a etifeddwyd, amharwyd ar y cymorth a gynigiwyd i hawlwyr gan y Wladwriaeth. Yn aml, byddent yn cael eu gweld gan gynghorwyr gwahanol o ganlyniad i newidiadau yn eu hamgylchiadau. Nod yr Adran yw sicrhau mai'r un Hyfforddwr Gwaith sy'n cynorthwyo hawlwyr drwy gydol cyfnod eu hawliad Credyd Cynhwysol, sy'n golygu y gall hawlwyr feithrin cydberthynas â'u Hyfforddwr Gwaith. Mae hyn hefyd yn cynnwys os byddant yn rhoi'r gorau i gael Credyd Cynhwysol oherwydd y gellir cadw eu hawliad ar agor am chwe mis er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymorth parhaus os byddant yn dychwelyd i Gredyd Cynhwysol.

### Sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posibl mewn gwasanaethau cwsmeriaid

In parallel with these changes in Jobcentres, Universal Credit also improves the support provided remotely to working age claimants. The Department has already reduced significantly the number of contacts which claimants make over the phone, in part by ensuring that far fewer callers have to be passed on from a Contact Centre to a Benefit Centre. This has enabled the Department to improve service and reduce costs.

Mae Credyd Cynhwysol yn mynd â hyn gam ymhellach, ac mae'n cyfuno'r canolfannau cyswllt a'r canolfannau prosesu budd-daliadau unigol hyn yn ganolfannau gwasanaeth newydd. Sefydlwyd tair canolfan o'r fath eisoes, yn Bolton, Glasgow a Bangor. Drwy hyfforddi'r staff yn y canolfannau hyn i gwmpasu amrywiaeth eang o swyddogaethau, gyda mwy o wybodaeth fanwl am Gredyd Cynhwysol, ceir cyfle sylweddol i sicrhau arbedion o ran staffio ac ystadau. Mae rhai o'r arbedion hyn, yn eu tro, yn rhyddhau






adnoddau ar gyfer gweithredu cyfundrefn amodoldeb y farchnad lafur i fwy o bobl (gweler Adran 2.2).

Wrth baratoi ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol ledled y DU, mae'r Adran hefyd wedi bod yn treialu'r dull hwn yn y system budd-daliadau a etifeddwyd. Mae'r canlyniadau cynnar wedi bod yn galonogol, ac mae treial mwy yn mynd rhagddo. Os bydd yn llwyddiannus, bydd hyn yn agor y ffordd i sicrhau bod canolfannau gwasanaethau yn cael eu creu ledled Prydain Fawr, i ddechrau ar gyfer y system budd-daliadau a etifeddwyd, sydd eto yn golygu na fydd y broses ddilynol o gyflwyno Credyd Cynhwysol yn peri risg.

### Astudiaeth achos 2:

**Michelle Worthington, Rheolwr Gweithrediadau o Ganolfan Gwasanaethau Bolton**



ae Canolfannau Gwasanaethau Credyd Cynhwysol yn darparu gwasanaeth pwysig i hawlwyr. Yn ddiweddar, dathlodd Canolfan Gwasanaethau Bolton ei blwyddyn gyntaf o weithio ar Gredyd Cynhwysol. Mae Michelle yn egluro sut flwyddyn a gafodd ei thîm:

"Rwyf wedi bod yn gweithio i'r Ganolfan Byd Gwaith am bron i 20 mlynedd felly roedd gennyf ddiddordeb mawr mewn gweld pa newidiadau a ddaw yn sgil Credyd Cynhwysol. Pan gafodd ei gyflwyno y tro cyntaf cafwyd amrywiaeth o emosiynau o bryder i edrych ymlaen a chyffro. Flwyddyn yn ddiweddarach, credwn ei fod wedi cyflwyno newid cadarnhaol.

Roedd ein gwaith yn arfer canolbwyntio llawer ar brosesau gyda'r ffocws yn llwyr ar sicrhau bod hawlwyr yn cael eu harian. Nawr, rydym yn cymryd llawer mwy o ran yn eu taith i mewn i waith. A cheir llawer mwy o gysylltiad rhyngom ni a staff canolfannau gwaith.

Un rhan bwysig o'n rôl yw sicrhau bod hawlwyr yn diweddaru eu gwybodaeth yn rheolaidd a chofnodi unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau. Mae'r cyfrifoldebau ehangach hyn yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol o foddhad i ni - gan wybod ein bod yn helpu pobl i symud yn agosach at waith. Mae'n wych gweld hawlwyr yn barod i symud o gael taliadau bob pythefnos i gael taliadau bob mis. Mae hefyd yn werth chweil pan fyddwn yn llwyddo i gael hawlwyr i ailgysylltu â ni os byddant yn petruso ar eu Hymrwymiad Hawlydd - rydym yn eu helpu i ailgysylltu â'u Hyfforddwr Gwaith.

Mae Credyd Cynhwysol yn llawer mwy hyblyg na'r hen system. Weithiau, pethau bach sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Er enghraifft, gallom helpu gweithiwr gofal plant ifanc o'r enw Laura pan oedd am gymryd rôl newydd ond nad oedd ganddi'r arian i dalu am ei thocyn i deithio i'r cyfweliad. Ffoniodd ni ac egluro'r sefyllfa a gallom drefnu iddi gael taliad cymorth hyblyg i dalu'r gost. Cafodd y swydd, cynyddodd ei hincwm ac mae bellach wedi rhoi'r gorau i gael Credyd Cynhwysol yn llwyr.

Rydym yn gwerthuso'r gwasanaeth a gynigir gennym yn barhaus ac rydym hefyd wedi creu partneriaethau cryf ag Awdurdodau Lleol a landlordiaid, ymhlith pethau eraill, sy'n golygu y gallwn gynnig mwy o gymorth cydgysylltiedig i hawlwyr.

Felly, flwyddyn yn ddiweddarach, rydym o'r farn bod Credyd Cynhwysol o fudd i bawb. Mae'r hawlwyr yn cael gwasanaeth mwy personol, wedi'i dargedu'n well ac rydym ni'n cael boddhad o weld hawlwyr drwy'r holl daith".

## 2.7 Creu gwasanaeth digidol diogel

Mae'r holl waith a ddisgrifiwyd eisoes yn y bennod hon yn cefnogi'r broses o greu a chyflwyno Credyd Cynhwysol. Mae'r gwasanaeth byw presennol wedi bod yn gweithredu ers 18 mis bellach, ac mae wedi'i ehangu'n raddol.

Er mwyn atgyfnerthu newid mewn ymddygiad a lleihau costau a gwella gwerth am arian, mae Credyd Cynhwysol yn:
- cyflwyno Gwasanaeth Digidol

Eleni, bydd yr Adran hefyd yn rhedeg prawf wedi'i reoli o Wasanaeth Digidol. Mae'r tabl drosodd yn dangos yr enillion pellach, sy'n rhagori ar bopeth sydd eisoes yn cael ei ddarparu, o gyflwyno Gwasanaeth Digidol. Mae'r rhain yn cynnwys nodweddion a swyddogaeth well. Er enghraifft galluogi aelwydydd i gofnodi newidiadau ar-lein yn ogystal â thros y ffôn ac wyneb yn wyneb; a galluogi aelwydydd i wneud newidiadau i'w rhestr o bethau i'w gwneud ar gyfer yr Ymrwymiad Hawlydd, gyda chymorth wyneb yn wyneb ar gael o hyd, yn enwedig i'r rheini sydd angen help ychwanegol.

Mae'r Gwasanaeth Digidol yn adeiladu ar brofiad o'r gwasanaeth Credyd Cynhwysol sy'n gweithredu ar hyn o bryd ac yn dysgu ohono, ac mae'n gwneud defnydd o'r asedau allweddol a ddatblygwyd eisoes yn gyffredinol. Bydd y Gwasanaeth Digidol yn cynyddu effeithlonrwydd y gwasanaeth presennol ac yn gwella gwerth am arian.

Mae'r Gwasanaeth Digidol yn cael ei ddatblygu'n fewnol, a chaiff ei weithredu'n fewnol. Mae'r Adran eisoes wedi recriwtio llawer o bobl newydd sydd â sgiliau a phrofiad perthnasol. Drwy weithredu fel hyn, bydd gan yr Adran fwy o reolaeth dros y ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithio, a bydd yn gallu gwneud addasiadau i'r gwasanaeth yn gyflymach, gan adlewyrchu'r hyn a gaiff ei ddysgu o'i weithredu'n fwy. Dylai'r costau gweithredu fod yn is na'r systemau TG mwy traddodiadol, sy'n dibynnu ar roi cymorth ar gontract allanol.

Mae gweithredu'n ddiogel drwy sianelau ar-lein yn galw am brosesau gwych i reoli twyll a risgiau diogelwch eraill. Mae arbenigedd diogelwch a thwyll y rhaglen yn elfen hanfodol o'r tîm datblygu, ac mae'r gwasanaeth yn cael ei adeiladu gyda'r lefel briodol o fesurau diogelwch a gwrth-dwyll.

Bydd hyn yn cynnwys:
- **Sicrwydd Hunaniaeth:** bydd y Gwasanaeth Digidol yn defnyddio'r gwasanaeth Sicrwydd Hunaniaeth newydd ar draws y Llywodraeth a ddatblygir gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth "Gov.UK Verify". Mae hwn eisoes yn cael ei brofi ar drafodion eraill y Llywodraeth, a'r nod yw gwella'r prosesau dilysu ac awdurdodi presennol.
- **Prosesau deinamig o wneud penderfyniadau ar sail risg:** aiff y Gwasanaeth Digidol craidd ei integreiddio â system asesu risg, a chaiff ei ysgogi ganddi. Bydd y system hon yn adlewyrchu'r wybodaeth sydd ar gael i'r Adran (am ddulliau troseddau seibr, amgylchiadau'r hawlydd a'i sesiwn ar-lein bresennol) a bydd yn rheoli trafodion unigol pob hawlydd yn unol â'r risg a aseswyd. Bydd risgiau gwahanol yn arwain at brosesau gwahanol: gydag archwiliadau wyneb yn wyneb lle mae'r risgiau ar eu huchaf, a phrosesau awtomataidd lle mae'r risgiau yn dderbyniol.



Credyd Cynhwysol ar Waith

**Ffigur 3: Taith integreiddio o Wasanaeth Byw i Wasanaeth Digidol**

| Thema | System a Etifeddwyd | Gwelliannau i'r Gwasanaeth Credyd Cynhwysol presennol | Gwelliannau pellach yn y Gwasanaeth Credyd Cynhwysol terfynol |
|---|---|---|---|
| Symlrwydd | System anhrefnus a gor-gymhleth - 30 o fudd-daliadau a chyfuniadau cymhleth.<br><br>Roedd cynghorwyr Canolfan Gwaith yn gweithredu fel gweinyddwyr budd-daliadau. | System symlach yn cyfuno chwe thaliad yn un.<br><br>Ceisiadau lluosog gyda sefydliadau gwahanol yn cael eu symud i un cais Credyd Cynhwysol a gymerir ac a reolir gan un sefydliad. | Un cyfrif ar-lein i bob hawlydd wneud popeth: gwneud cais, archwilio taliadau, cofnodi newidiadau, cael cymorth i chwilio am waith, rhannu gwybodaeth. |
| Trawsnewidiad diwylliannol | Sefyllfa pobl oedd mewn cornel ar fudd-daliadau yn gwaethygu os byddent yn cymryd swydd | Cydberthynas newydd rhwng cynghorwyr a hawlwyr - o 'archwilio' i 'hyfforddi'. | Mwy o gyswllt personol gan hyfforddwyr gwaith, cymorth ar gael ar-lein bob awr o'r dydd. |
| Cau'r trap budd-daliadau/ tlodi | Atgyfnerthu dibyniaeth ar les fel derbyn swydd yr ystyrir ei bod yn peri risg ac yn ddewis gwael.<br><br>Methu ag annog cyfrifoldeb ac annibyniaeth bersonol. | Cymhellion cryfach i wneud i waith dalu; yn seiliedig ar enillion nid oriau, heb reol 16 awr Credyd Cynhwysol gyda thaliad i bobl sydd mewn gwaith ac allan o waith, yn gostwng yn raddol wrth i'r enillion gynyddu; annog mân swyddi. | Cyfrifiannell ddigidol Credyd Cynhwysol - haws gweld buddiannau/cymhellion uniongyrchol gweithio.<br><br>Cyfrif hunanwasanaeth yn gwella gallu i chwilio am swyddi a gwneud cais amdanynt bob awr o'r dydd - mwy o hyblygrwydd a mwy o ddewis.<br><br>Negeseuon wedi'u teilwra i annog pobl i chwilio am waith, gan alluogi mwy o wasanaethau personol. |
| Disgwyl mwy gan bobl | Canolfannau gwaith ond yn gofyn am dri gweithgaredd bob pythefnos, adroddiadau ôl-weithredol, atgyfnerthu diwylliant o ddibyniaeth. | Ymrwymiad Hawlydd ym mhob Canolfan Gwaith - mwy o gymorth wedi'i deilwra yn gyfnewid am ddisgwyliad uwch i chwilio am waith. 35 o oriau o chwilio am waith bob wythnos.<br><br>Taliadau misol.<br><br>Talu rhent i denantiaid nid i landlordiaid. | Rhestr newydd o bethau i'w gwneud yn gwella Ymrwymiad Hawlydd digidol.<br><br>Haws cofnodi gweithgaredd chwilio am swydd, gwneud ymrwymiad newydd, cael adborth.<br><br>Mynediad personol i gyfrif ar-lein yn annog cyfrifoldeb. |
| Trawsnewidiad digidol | Ffyrdd analog hen ffasiwn o chwilio am waith - mannau swyddi a ffonau. | Cyfleusterau chwilio am swydd ar-lein digidol newydd - cyflwyno Paru Swyddi Ar-lein.<br><br>Canolfannau gwaith digidol wedi'u cyflwyno.<br><br>Dros 90 y cant o bobl yn gwneud cais ar-lein. | Ei symleiddio hyd yn oed yn fwy - mynediad i Gredyd Cynhwysol drwy ffonau deallus a llechi.<br><br>Rhannu data digidol mewn partneriaethau Cymorth Cynhwysol wedi'i Ddarparu'n Lleol.<br><br>Gwasanaethau digidol ym mhob Canolfan Gwaith. |

| Thema | System a Etifeddwyd | Gwelliannau i'r Gwasanaeth Credyd Cynhwysol presennol | Gwelliannau pellach yn y Gwasanaeth Credyd Cynhwysol terfynol |
|---|---|---|---|
| Twyll a chamgymeriadau | Cyfraddau twyll a chamgymeriadau uchel - costio biliynau o bunnoedd i drethdalwyr mewn arian a dalwyd yn anghywir. | Mae data a gaiff eu bwydo'n awtomatig gan gyflogwyr yn lleihau'r siawns o dwyll a chamgymeriad. | Sicrwydd hunaniaeth electronig.<br><br>Penderfyniadau yn seiliedig ar broffiliau risg.<br><br>Monitro diogelwch ar-lein. |
| Cymorth Cynhwysol/ Gwasanaethau lleol<br><br>Trawsnewid y farchnad lafur | Annog datgysylltiad o'r gwaith, diwylliant o ddibyniaeth a diweithdra.<br><br>Lefelau amrywiol o bartneriaethau lleol a chymorth ychwanegol, gyda methiannau i gydgysylltu rhwng Canolfannau Gwaith ac Awdurdodau Lleol. | Mae partneriaethau lleol newydd yn rhoi cymorth cydgysylltiedig i hawlwyr sy'n agored i niwed i wneud y newid i mewn i waith fel rhan o Gymorth Cynhwysol a ddarperir yn lleol.<br><br>Aelwydydd sydd angen Cymorth Cyllidebu Personol wedi'u nodi a'u cynorthwyo.<br><br>Ysgogwyr awtomatig yn golygu y gellir cyflwyno taliadau amgen yn gyflymach. | Partneriaethau aeddfed yn darparu gwasanaethau integredig cyflym, effeithiol, priodol er mwyn cynorthwyo hawlwyr i mewn i waith yn y pen draw.<br><br>Partneriaethau cydgysylltiedig yn rhannu data, sgiliau ac ystâd lle y bo'n briodol. |
| | Hyblygrwydd cyfyngedig yn y farchnad lafur yn sgil strwythurau a chymhellion gwrthnysig. | Dileu'r rheol 16 awr.<br><br>Llai o fiwrocratiaeth - defnyddio data amser real gan gyflogwyr.<br><br>Cymorth gofal plant mwy hael.<br><br>Cymorth mewn gwaith i wella enillion a symudedd cymdeithasol. | Cymorth personol i chwilio am waith drwy gyfrif ar-lein Credyd Cynhwysol sydd hefyd yn gwella sgiliau digidol hawlwyr.<br><br>Meithrin rhwydweithiau ar-lein rhwng cyflogwyr a hawlwyr.<br><br>Cymorth Credyd Cynhwysol wedi'i ehangu i'r amrywiaeth lawn o hawlwyr budd-daliadau. |



Credyd Cynhwysol ar Waith

# 3. Credyd Cynhwysol: wedi'i gyflawni'n ddiogel

Roedd graddau'r newid sy'n ofynnol gan Gredyd Cynhwysol yn galw am raglen a oedd yn pontio dwy Senedd. Bydd y rhaglen newydd wedi disodli mynediad i bob budd-dal presennol ar gyfer hawlwyr newydd cyn diwedd 2017. Yn wahanol i gymaint o raglenni blaenorol, mae'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol wedi bod yn ddiogel i'r sawl sy'n ei ddefnyddio ac yn dibynnu arno.

Lansiwyd Credyd Cynhwysol yn safle'r Cynllun Braenaru yng ngogledd-orllewin Lloegr ac mae wedi'i ehangu yn unol â'r targedau a nodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Rhagfyr 2013.

Mae'r broses gyflwyno hyd yma yn seiliedig ar:

- Cynnig Credyd Cynhwysol i'r sawl a fyddai fel arall wedi gwneud cais newydd am Lwfans Ceisio Gwaith: gan ddechrau gyda cheisiadau gan bobl sengl, ehangu i gyplau o Orffennaf 2014, a symud i deuluoedd gyda phlant ym mis Tachwedd 2014;
- Cadw hawlwyr ar Gredyd Cynhwysol hyd yn oed os byddai newid yn eu hamgylchiadau fel arall wedi eu symud i fudd-dal arall i bobl allan o waith, neu i gredydau treth i bobl mewn gwaith: felly os bydd gan hawliwr blentyn, os bydd yn dod yn rhan o gwpwl, os bydd yn symud i mewn i waith, neu'n mynd yn sâl, bydd yn aros ar Gredyd Cynhwysol (hyd nes bydd ei enillion mewn gwaith yn ei godi'n llwyr allan o gymorth y wladwriaeth);
- Ehangu'r cwmpas daearyddol yn raddol.

Drwy roi'r gwasanaeth Credyd Cynhwysol ar waith yn raddol fel hyn, gall yr Adran wneud y canlynol:

- ei gyflawni'n **ddiogel**, gan gyfyngu ar yr ymyrraeth i hawlwyr;
- **profi bwriad a phrosesau'r polisi,** dysgu a thrwy hynny wella'r gwasanaeth yn barhaus, yn cynnwys adborth ar gynllun y Gwasanaeth Digidol gwell; a
- hysbysu'r **trawsnewidiad busnes a diwylliannol** bod angen i'r Adran a'i phartneriaid sicrhau bod Credyd Cynhwysol yn cyflawni ei botensial llawn.

Ym mis Medi 2014, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol ddechrau'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol ledled y DU, gan adeiladu ar lwyddiant y broses o gyflawni'r cynlluniau hyd yma. O ddechrau 2015, caiff Credyd Cynhwysol ei gyflwyno'n radd i'r holl Ganolfannau Gwaith ac Awdurdodau Lleol ym Mhrydain Fawr, ar gyfer ceisiadau newydd gan bobl sengl a fyddai wedi gwneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith fel arall. Mae hyn yn datblygu'r cynlluniau amlinellol a gyhoeddwyd fis Rhagfyr diwethaf ac mae'n galluogi'r Adran i wneud y canlynol:

- **Sicrhau buddiannau economaidd yn gynt** – gyda Chredyd Cynhwysol yn helpu mwy o aelwydydd i mewn i waith yn gynharach.
- **Alinio'r amgylchedd gweithredu** – mae ymgysylltu'n gynnar â'r amrywiaeth genedlaethol o randdeiliaid yn cynnwys cyflogwyr, landlordiaid ac eraill, yn galluogi sefydliadau i fesur ac addasu eu gweithrediadau, mewn modd rheoledig, gan adeiladu hyder, dysgu a gallu dros amser.
- **Sefydlu Credyd Cynhwysol â phartneriaid cyflenwi Awdurdodau Lleol** – er mwyn sicrhau bod y seiliau wedi'u gosod ar gyfer trawsnewid a bod y gwasanaethau lleol Cymorth Cynhwysol angenrheidiol wedi'u sefydlu i gefnogi aelwydydd sy'n agored i niwed.
- **Gwella profiad y gwasanaeth Credyd Cynhwysol** i hawlwyr, aelwydydd a staff, wrth i'r gwasanaeth ddatblygu'r gallu TG a gweithrediadol i ymdopi â mwy o gymhlethdod a mwy o waith yn 2016 a thu hwnt.

Bydd y cyfuniad o gyflwyno Credyd Cynhwysol ledled y DU a chadw pobl arno pan fydd eu hamgylchiadau'n newid yn sicrhau bod llwyth achosion Credyd Cynhwysol yn parhau i gynyddu, o ran niferoedd a chymhlethdod, yn naturiol dros amser. Bydd y broses hon yn cyflymu wrth i geisiadau newydd am fudd-daliadau eraill a etifeddwyd gael eu disodli gan geisiadau newydd am Gredyd Cynhwysol. Mae gan yr ymfudo naturiol hwn fanteision o gymharu ag ymfudo a reolir (pan fydd pobl yn cael eu trosglwyddo'n weithredol o fudd-daliadau a etifeddwyd i Gredyd Cynhwysol ac nad oes unrhyw beth arall wedi newid) yn cynnwys:

- **gwella profiad defnyddwyr** gan fod Credyd Cynhwysol yn sicrhau cymorth personol i aelwydydd wedi'i deilwra i'w hamgylchiadau newydd, gan ymfudo ar yr adeg pan fydd yn rhaid i aelwydydd ryngweithio â'r Llywodraeth beth bynnag;
- **rheoli risg** drwy adeiladu llwyth achosion dros amser drwy lif naturiol i gyflwyno Credyd Cynhwysol yn ddiogel;
- lleihau cost drwy osgoi cyfnodau brig artiffisial mewn gwaith gweinyddu yn lleol ac yn genedlaethol;
- **gwella llifau budd-daliadau** gan fod y gyfundrefn cymorth ac amodoldeb - yn cynnwys yr Ymrwymiad Hawlydd wedi'i deilwra - yn gwella canlyniadau cyflogaeth pob aelwyd wrth iddynt wneud cais a datblygu eu hawliad Credyd Cynhwysol;
- **rhoi mwy o gymorth i'r sawl sydd ei angen** gyda brysbennu lleol i Gymorth Cynhwysol yn cynnwys help gyda mynediad ar-lein i Gredyd Cynhwysol, a Chymorth Cyllidebu Personol a Threfniadau Talu Amgen ar gyfer elfen tai Credyd Cynhwysol lle y bo'n briodol; a,
- **sicrhau gwerth gwell am arian,** yn cynnwys twyll a chwilio am gamgymeriadau ar y cam gwneud cais newydd a lleihau beichiau diogelu trosiannol ar y trethdalwr.

Mae'r cynllun hwn - a ddiogelwyd gan yr Awdurdod Prosiectau Mawr ac a gadarnhawyd gan Drysorlys EM - yn cyflwyno ehangiad a newid cenedlaethol, gan alluogi ymfudo naturiol i adeiladu llwyth achosion Credyd Cynhwysol dros amser wrth i amgylchiadau aelwydydd newid ac wrth iddynt ddod yn gymwys i gael Credyd Cynhwysol ac wrth iddynt ei hawlio. Bydd yr Adran yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol dros y misoedd nesaf, er mwyn datblygu'r cynlluniau ar gyfer newid ac ymfudo.

Bydd yr Adran yn personoli'r cymorth i wella llifau i mewn i waith wrth i fwy o aelwydydd symud i Gredyd Cynhwysol pan na fydd yn bosibl gwneud ceisiadau newydd am fudd-daliadau a chredydau treth a etifeddwyd o 2016. Bydd hyn yn golygu bod y gwasanaeth Credyd Cynhwysol wedi'i sefydlu ledled Prydain Fawr erbyn 2017, gyda'r llwyth achosion yn parhau i adeiladu ar ôl hynny.

Bydd yr Adran yn adolygu pob cynllun tymor hwy ac yn datblygu Credyd Cynhwysol yn seiliedig ar y dull *Profi a Dysgu*, gan sicrhau bod y Wladwriaeth Les a'r farchnad lafur yn y DU yn cael eu trawsnewid yn yr hirdymor mewn ffordd ddiogel.






**Ffigur 4: Cyflwyno Credyd Cynhwysol - crynodeb**

| Dyddiad | Ardaloedd Canolfannau Gwaith (a Chanolfannau Gwasanaeth ategol) | Hawlwyr yn gwneud ceisiadau newydd (ond bydd unrhyw newidiadau dilynol yn gadael hawlwyr ar Gredyd Cynhwysol) |
|---|---|---|
| Ebrill 2013 | Cynllun Braenaru<br>Ashton under Lyme<br>Canolfannau Gwasanaeth Credyd Cynhwysol yn Bolton a Glasgow | Ceisiadau newydd gan bobl sengl ddi-waith, gyda neu heb gostau tai, ond nad oes ganddynt blant nag anghenion ychwanegol e.e. morgais, digartref, heb gyfrif banc. |
| Gorffennaf 2013 | Ehangu i dair ardal arall:<br>Wigan; Warrington; Oldham<br>**Cyfanswm: pedair ardal** | Fel uchod. |
| Hydref 2013 i Ebrill 2014 | Ehangu i chwe ardal arall gan sicrhau presenoldeb Credyd Cynhwysol ym mhob rhanbarth o Brydain Fawr:<br>Rugby; Hammersmith;<br>Caerfaddon; Harrogate;<br>Inverness; Shotton<br>**Cyfanswm: deg ardal**<br>Canolfan Gwasanaeth Credyd Cynhwysol ym Mangor | Fel uchod.<br><br>Gellir gwneud cais yn Gymraeg yn Shotton. |
| Mehefin i Orffennaf 2014 | Ehangu i 29 o ardaloedd eraill<br>**Cyfanswm: 39 o ardaloedd** | Fel uchod, gan ehangu i gynnwys ceisiadau newydd gan gyplau heb blant, a llacio cyfyngiadau ar geisiadau gan bobl sengl. |
| Mis Medi i fis Rhagfyr 2014 | Ehangu i 58 o ardaloedd eraill<br>**Cyfanswm: 96 o ardaloedd** | Fel uchod, gan ehangu ymhellach i gynnwys ceisiadau newydd gan gyplau gyda phlant (teuluoedd) mewn rhai safleoedd. |
| Ionawr 2015 | Cyflwyno'r broses o gynnwys teuluoedd i'r 96 o ardaloedd | Fel uchod, gan ehangu i gynnwys ceisiadau newydd gan gyplau gyda phlant (teuluoedd) i bob safle yn y gogledd-orllewin. |
| Dechrau 2015 | Ehangu ledled y DU | Ehangu i gynnwys ceisiadau newydd gan hawlwyr sengl gyda neu heb gostau tai, ond nid heb blant. |
| Yn ystod 2016 | Dechrau rhoi'r gorau i dderbyn ceisiadau cyntaf am fudd-daliadau a etifeddwyd, gan ddechrau gyda cheisiadau am Lwfans Ceisio Gwaith gan bobl sengl. | |
| Yn ystod 2017 | Rhoi'r gorau i dderbyn ceisiadau newydd am fudd-daliadau a etifeddwyd yn llwyr. | |

**Ffigur 5: Cyflwyno Credyd Cynhwysol: yn ôl safle**




**Allwedd**

Awdurdod Lleol:

- Byw
- Byw erbyn 31 Rhagfyr 2014
- O fis Chwefror 2015

Canolfan Gwaith:

- Byw
- Byw erbyn 31 Rhagfyr 2014

D.S. Mae pob ardal Awdurdod Lleol yn cynnwys o leiaf un Canolfan Gwaith sy'n cyflwyno Credyd Cynhwysol, hyd at uchafswm o'r holl Ganolfannau Gwaith o fewn y ffin honno.

| Canolfan Gwaith | Awdurdod Lleol |
|---|---|
| 1 Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| 2 Rugby | Cyngor Bwrdeistref Rugby |
| 3 Inverness | Cyngor Highland Council |
| 4 Caerfaddon | Cyngor Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf |
| 5 Hammersmith | Cyngor Bwrdeistref Hammersmith a Fulham yn Llundain |
| 6 Harrogate | Cyngor Bwrdeistref Harrogate |
| 7 Ashton-under-Lyme<br>8 Hyde<br>9 Stalybridge | Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Tameside |
| 10 Stretford<br>11 Altrincham | Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Trafford |
| 12 Southport<br>13 Crosby<br>14 Bootle<br>84 Aintree | Sefton Metropolitan Borough Council |
| 15 Bolton (Great Moor Street)<br>16 Bolton (Blackhorse Street)<br>17 Farnworth | Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Bolton |
| 18 Birkenhead<br>19 Bromborough<br>20 Hoylake<br>21 Upton<br>22 Wallasey | Cyngor Cilgwri |
| 23 Preston | Cyngor Dinas Preston |
| 24 Leyland | Cyngor Bwrdeistref De Ribble |
| 25 Prestwich<br>26 Bury | Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Bury |
| 27 Eccles<br>28 Worsley<br>94 Salford<br>95 Irlam | Cyngor Dinas Salford |
| 29 Huyton<br>30 Kirkby | Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Knowsley |
| 31 St Helens<br>32 Newton-le-Willows | Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd St Helens |
| 33 Chester<br>91 Ellesmere Port<br>92 Northwich<br>93 Winsford | Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer |
| 34 Congleton<br>35 Crewe<br>36 Wilmslow<br>85 Macclesfield | Cyngor Dwyrain Caer |
| 37 Rochdale<br>38 Middleton<br>39 Heywood | Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Rochdale |
| 40 Skelmersdale<br>41 Ormskirk | Cyngor Bwrdeistref Gorllewin Swydd Gaerhirfryn |
| 42 Cheetham Hill<br>43 Newton Heath<br>44 Wythenshawe<br>70 Alex Park<br>86 Rusholme<br>87 Chorlton<br>88 Longsight<br>89 Openshaw<br>90 Didsbury | Cyngor Dinas Manceinion |

| Canolfan Gwaith | Awdurdod Lleol |
|---|---|
| 45 Wavertree<br>46 Williamson Sq<br>47 Toxteth<br>48 Edge Hill<br>49 Everton<br>81 Norris Green<br>82 West Derby<br>83 Garston<br>96 Belle Vale | Cyngor Dinas Lerpwl |
| 50 Rawtenstall | Cyngor Bwrdeistref Rossendale |
| 51 Colne<br>52 Nelson | Cyngor Bwrdeistref Pendle |
| 53 Accrington | Cyngor Bwrdeistref Hyndburn |
| 54 Burnley | Cyngor Bwrdeistref Burnley |
| 55 Leigh<br>56 Wigan<br>57 Atherton<br>58 Ashton-in-Makerfield | Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Wigan |
| 59 Warrington | Cyngor Bwrdeistref Warrington |
| 60 Oldham | Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Oldham |
| 61 Fleetwood | Cyngor Wyre |
| 62 Stockport | Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Stockport |
| 63 Widnes<br>64 Runcorn | Cyngor Bwrdeistref Halton |
| 65 Blackburn<br>66 Darwen | Cyngor Bwrdeistref Blackburn a Darwen |
| 67 Chorley | Cyngor Chorley |
| 68 Gogledd Blackpool<br>69 De Blackpool | Cyngor Bwrdeistref Blackpool |
| 71 Barrow | Cyngor Bwrdeistref Barrow-in-Furness |
| 72 Lytham St Anne's | Cyngor Bwrdeistref Fylde |
| 73 Lancaster<br>74 Morecombe | Cyngor Dinas Lancaster |
| 75 Kendal | Cyngor Dosbarth De Lakeland |
| 76 Whitehaven | Cyngor Bwrdeistref Copeland |
| 77 Workington | Cyngor Bwrdeistref Allerdale |
| 78 Penrith | Cyngor Dosbarth Eden |
| 79 Caerliwelydd | Cyngor Dinas Caerliwelydd |
| 80 Clitheroe | Cyngor Bwrdeistref Ribble Valley |

## Amcangyfrifon o Lwyth Achosion Credyd Cynhwysol

Nid yw DWP yn pennu targedau ar gyfer y niferoedd sy'n cael Credyd Cynhwysol ar adegau penodol. Bydd y niferoedd terfynol yn amrywio yn ôl nifer o ffactorau fel yr amgylchiadau economaidd dros amser a newid mewn ymddygiad hawlwyr. Fodd bynnag, mae'r tabl isod yn nodi'r rhagdybiaethau cynllunio presennol yn seiliedig ar yr amserlen a drafodwyd uchod a'r rhagdybiaethau economaidd sy'n cyd-fynd â Chyllideb 2014.

| | |
|---|---|
| Llwyth Achosion Presennol (ar 11 Medi 2014) | 14,170[2] |
| Rhagamcaniad Mai 2015 | 0.1 miliwn o dderbynwyr |
| Rhagamcaniad Mai 2016 | 0.5 miliwn o dderbynwyr |
| Hirdymor pan fydd wedi'i gyflwyno'n llawn | 7.7 miliwn o dderbynwyr |

2. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/363825/universal-credit-statistics-first-release-sep-2014.pdf





# 4. Credyd Cynhwysol: costau a buddiannau

Ym mis Medi 2014, yn dilyn adolygiad o sicrwydd ac argymhelliad gan yr Awdurdod Prosiectau mawr, cymeradwyodd Trysorlys EM yr Achos Busnes Amlinellol Strategol ar gyfer Credyd Cynhwysol. Mae'r achos busnes yn cwmpasu'r holl raglen, ac mae'n dwyn ynghyd gostau buddsoddi a gweithredu Credyd Cynhwysol ar gyfer y cyfnod o ddeng mlynedd rhwng 2014-15 a 2023-24, a'r buddiannau economaidd a ddisgwylir, yn enwedig yn sgil y ffaith y bydd mwy o bobl mewn gwaith.

Disgwylir buddiannau economaidd sylweddol o Gredyd Cynhwysol. Mae'r achos busnes yn amcangyfrif, mewn cyflwr sefydlog, y bydd Credyd Cynhwysol yn:
- creu buddiannau economaidd gros o £7 biliwn bob blwyddyn;
- arwain at ostyngiad net mewn costau gweinyddol o £0.1 biliwn y flwyddyn, gan fod arbedion blynyddol o £0.7 biliwn yn sgil diddymu nifer o fudd-daliadau a etifeddwyd, a Gwasanaeth Digidol gwell, yn gwrthbwyso'r costau ychwanegol o £0.6 biliwn ar gyfer cyflwyno cyfundrefn amodoldeb marchnad lafur i grŵp ehangach o bobl (yn cynnwys pobl mewn gwaith â chyflog isel).

Mae prif elfennau'r buddiannau economaidd fel a ganlyn (dangosir gwerthoedd cyflwr sefydlog a chyfansymiau yn y tabl ar dudalen 32):

- **Effeithiau Cyflenwad Llafur:** Drwy wella'r cymhellion i weithio, ac i weithio mwy, mae'r achos busnes yn amcangyfrif y bydd hyd at 300,000 o aelwydydd ychwanegol mewn gwaith, unwaith y caiff effaith Credyd Cynhwysol ei sylweddoli'n llawn. Drwy gynyddu maint yr economi, bydd mwy o bobl yn ennill, bydd derbyniadau treth yn gwella, a bydd lefelau diweithdra yn is nag y byddent wedi bod fel arall o dan y system a etifeddwyd.

- **Buddiannau ailddosbarthu:** Mae'r buddiannau hyn yn codi pan fydd aelwydydd incwm isel yn cael incwm uwch (cyfrifwyd gan ddefnyddio Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM[3]). Maent yn adlewyrchu effaith y ffaith bod Credyd Cynhwysol yn galluogi unigolion i gadw mwy o'u hincwm wrth iddynt symud i mewn i waith, a thrwy gyflwyno dull rhwyddach a mwy tryloyw o ostwng eu budd-daliadau pan fydd eu henillion yn cynyddu. Bydd tlodi plant hefyd yn is nag o dan y system a etifeddwyd drwy dargedu adnoddau at bobl sydd ar enillion is, a gwella nifer y bobl sy'n cael yr adnoddau hyn.

- **Lleihau Twyll:** The greater simplicity of Universal Credit will generate savings by reducing the scope for fraud (and also enables the Department to reduce error).

- **Budd-daliadau Anariannol:** Mae Credyd Cynhwysol hefyd yn cyflwyno amrywiaeth o fuddiannau anariannol yn cynnwys:
  – Gostyngiad tlodi mewn gwaith
  – Profiad gwell i hawlwyr
  – Gwell ymgysylltiad â staff
  – Gwell cynnig gan gyflogwyr
  – Effeithiau datblygu cynaliadwy

3. Trysorlys EM 'The Green Book - Appraisal and Evaluation in Central Government'

**Ffigur 6: Credyd Cynhwysol: Gwerth cyflwr sefydlog y flwyddyn a gwerthoedd hyd at 2023 - 2024**

| Math | Budd | Gwerth Cyflwr Sefydlog y flwyddyn | Cyfanswm Gwerth hyd at 23/24 (£bn)[4] |
|---|---|---|---|
| Effeithiau cyflenwad llafur | Gostyngiad mewn diweithdra effeithiau ar gyflogaeth | 2.4 | 9.1 |
| Effeithiau ailddosbarthu | Teuluoedd yn well eu byd: effaith ailddosbarthu ar nifer y bobl sy'n manteisio / sy'n gymwys | 2.7 | 18.1 |
| | Effaith dosbarth o ostyngiad mewn diweithdra | 0.8 | 3.0 |
| Llai o dwyll a chamgymeriadau | Llai o Dwyll | 0.2 | 1.5 |
| Buddiannau economaidd eraill | Gostyngiad mewn costau gweinyddu | 0.7 | 3.7 |
| Buddiannau eraill i'r gymdeithas ehangach | Effeithiau cadarnhaol ar iechyd | 0.1 | 0.5 |
| | **Cyfanswm buddiannau gros** | **6.9** | **35.9** |

Mae angen buddsoddiad sylweddol ymlaen llaw er mwyn cyflwyno model gweithredu newydd o'r raddfa hon. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm costau gweithredu dros y cyfnod yn achos busnes Medi 2014 yn £1.8 biliwn. Yn yr achos busnes a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2011 (a hefyd a nodwyd yn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol[5] ym mis Medi 2013) yr amcangyfrifwyd y byddai'r rhain yn £2.4 biliwn.

O'r cyfanswm o £1.8 biliwn, mae tua un rhan o dair ohono wedi cael ei wario hyd yma ar gynllunio, adeiladu a gweithredu'r model a'r gwasanaeth Credyd Cynhwysol. Fel y dangosodd Pennod 2, mae Credyd Cynhwysol yn ymrwymiad anferth, ac felly mae'n rhaid i'r costau gweithredu gwmpasu'r holl feysydd yn ffigur 7 ar dudalen 33.

4. Mae'r holl ffigurau yn y tabl hwn yn ffigurau gros a heb eu disgowntio
5. Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol 2013 - 'Universal Credit - Early Progress'





**Ffigur 7: Prif elfennau'r costau buddsoddi hyd yma**

- Polisi a fframwaith cyfreithiol cyffredinol Credyd Cynhwysol
- •Cynllun rhaglen a chefnogaeth y gwasanaeth Credyd Cynhwysol, yn cynnwys:
  – Gwaith manwl i ddatblygu prosesau busnes Credyd Cynhwysol a'i wella'n barhaus
  – Datblygu teithiau hawlwyr i hwyluso cynllun y gwasanaeth
  – Modiwlau Dysgu a Datblygu ar gyfer y rolau swyddi amrywiol
  – Darparu hyfforddiant i'r holl aelodau o staff sy'n symud i mewn i waith o fewn Credyd Cynhwysol
  – Datblygu gofynion a metrig Gwybodaeth Reoli
  – Rheoli Gwybodaeth a datblygu Seiliau Gwybodaeth a chanllawiau (ar gyfer staff a hawlwyr Credyd Cynhwysol)
  – Gwneud gwaith paratoi ar lawr gwlad a gweithredu'r gwasanaeth Credyd Cynhwysol
- TG - darparu ymarferoldeb mesuradwy sydd eisoes yn bodoli yn y gogledd-orllewin a chynorthwyo'r broses o ehangu ledled y DU o 2015. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau cynllunio, adeiladu, profi a gweithredu er mwyn cynorthwyo'r gwasanaeth Credyd Cynhwysol i fynd yn fyw a diweddariadau dilynol, yn cynnwys gwelliant parhaus a gwelliannau o ran ymarferoldeb
- Cynllunio a datblygu sefydliadol
- Datblygu a chyflawni gofynion a gwasanaethau diogelwch
- Ymarferoldeb rheoli, cymorth ac integreiddio'r rhaglen, yn cynnwys datblygu rhagdybiaethau, cynlluniau manwl a phrosesau rheoli risg ar gyfer y rhaglen
- Datblygu Achos Busnes Credyd Cynhwysol, yn cynnwys opsiynau a dadansoddi costau a buddiannau

O'r £1.2 biliwn o gostau buddsoddi nad aed iddynt eto, bydd tua 10 y cant ohonynt ar brosesau pellach i ddatblygu a gwella TG. Caiff y rhan fwyaf o'r hyn a fydd yn weddill ei wario ar brosesau pellach newid a gweithredu busnes, yn cynnwys y costau hynny ar gyfer newid, ymfudo, ystadau, hyfforddiant a chostau eraill sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r trawsnewidiad busnes sy'n angenrheidiol i weithredu Credyd Cynhwysol. Bydd hyn yn cynnwys hyd at 40,000 o staff ar draws rhwydwaith y Canolfannau Gwaith, fel y gellir cyflwyno Credyd Cynhwysol i filiynau o aelwydydd.

Y tu hwn i fuddsoddiad, mae'r cyfanswm cost gweithredu net hyd at ddiwedd cyfnod yr Achos Busnes yn niwtral. Mae'r holl wariant sy'n weddill yn agored i graffu ac adolygu pellach, er mwyn nodi a gweithredu cyfleoedd ar gyfer gostwng costau, a sicrhau'r gwerth gorau am arian.

Mae'r dadansoddiad cryno hwn yn dangos yr achos busnes cryf ar gyfer Credyd Cynhwysol: gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer aelwydydd, buddiannau economaidd sylweddol, a lleihau'r sail costau gweithredol.

# 5.
# Credyd Cynhwysol: y dystiolaeth o effaith sy'n dod i'r amlwg

Mae'r disgrifiad o Gredyd Cynhwysol ym Mhennod 1 yn helpu i ddangos yr haenau gwahanol, a'r amserlenni, ar gyfer ceisio tystiolaeth o'i effaith.

Mae hyn yn ffurfio pynciau ein strategaeth gwerthuso, gan geisio:
- tystiolaeth bod y cynllun, fel y'i gweithredir nawr, yn cynnig cymhellion ariannol gwell;
- tystiolaeth bod hawlwyr yn ymwybodol o'r cymhellion hynny, a'r anogaeth i gymryd mwy o gyfrifoldeb am chwilio am swydd a chyllidebu;
- tystiolaeth bod hawlwyr yn gweithredu'n wahanol o ganlyniad i hynny;
- tystiolaeth bod hawlwyr yn symud i mewn i waith yn gyflymach, yn aros mewn gwaith yn hirach, ac yn datblygu eu henillion pan fyddant mewn gwaith; a
- tystiolaeth bod hyn oll yn gwella cyfradd gyflogaeth y DU, ac - yn ei dro - yn tyfu economi'r DU.

Mae'r Adran wedi gosod fframwaith gwerthuso eang ar waith i gasglu a chofnodi tystiolaeth yn y meysydd gwahanol hyn. Mae'r amser sy'n angenrheidiol i ddangos pob effaith yn amlwg yn cynyddu yn dibynnu ar ba mor bell y mae'r effaith honno i lawr y rhestr; ac, ar bob lefel, po hiraf y bydd Credyd Cynhwysol yn gweithredu a pho fwyaf o hawlwyr sy'n manteisio arno, y cryfaf fydd y canlyniadau gwerthuso.

Mae'r dull gwerthuso hyd yma yn casglu tystiolaeth o sawl ffynhonnell, yn cynnwys:
- arolwg cymharu Credyd Cynhwysol/Lwfans Ceisio Gwaith ar raddfa fawr;
- cyfweliadau â hawlwyr a staff; a
- dadansoddiad ystadegol manwl o ddata gweinyddol.

Mae'r sail dystiolaeth yn cael ei hadeiladu gan ddefnyddio damcaniaeth pendant o newid. Mae'r dull hwn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol gan ei fod yn canolbwyntio ar newidiadau mewn ymddygiad ac agweddau yn ogystal â sut mae'r elfennau amrywiol o Gredyd Cynhwysol yn rhyngweithio ac yn annog pobl i newid eu hymddygiad.

Mae'r Adran wedi tanlinellu ei hymrwymiad at bolisi ar sail tystiolaeth drwy hyrwyddo profion gwell fel rhan o'r rheoliadau diwygio lles. Mae'n hyrwyddo profion a threialon o dan Gredyd Cynhwysol er mwyn deall yn well sut mae Credyd Cynhwysol yn gweithio ac, yn hanfodol, sut y gellir mireinio a gwella'r polisi er mwyn sicrhau'r newid mewn ymddygiad sydd ei angen i gael mwy o bobl i ddychwelyd i'r gwaith. Mae'r dull hwn yn cynnwys cynnal Treialon Rheoli Ar Hap i gefnogi'r broses o asesu beth sy'n gweithio orau. O dreialon ar raddfa fach o'r iaith a ddefnyddir gan staff Canolfannau Gwaith wrth siarad â hawlwyr Credyd Cynhwysol i beilot mawr arfaethedig o'r dull gweithredu ar gyfer amodoldeb mewn gwaith, mae'r Adran yn defnyddio'r Treialon fel ffordd o sicrhau'r canlyniadau gorau o'n buddsoddiad mewn Credyd Cynhwysol. Mae hyn yn newid gwirioneddol o ddulliau llunio polisïau traddodiadol ac yn galluogi Credyd Cynhwysol i brofi yn gyflym ac yn rhad er mwyn mireinio system a fydd yn sicrhau'r budd gorau i gymdeithas.

Mae'r Adran yn ymrwymedig i ddefnyddio tystiolaeth gadarn wrth brofi Credyd Cynhwysol ac mae wedi cyhoeddi dogfen yn nodi cynlluniau. I gefnogi hyn, mae'r Adran wedi gofyn i'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid roi cyngor ar sut i fesur effeithiau ar gyflogaeth. O fewn ffiniau'r cynlluniau i ehangu Credyd Cynhwysol i ogledd-orllewin Lloegr, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn nodi bod yr adroddiad yn ardderchog yn y rhan fwyaf o bethau, a bod y strategaeth werthuso arfaethedig yn gwbl briodol. Bydd yr Adran yn llunio adroddiad ar y dadansoddiad manwl yn y misoedd i ddod.





Ar y cam hwn, mae'r dystiolaeth sy'n ymddangos, ym mis Hydref 2014, yn siarad drosti'i hun. Mae'n cynrychioli tystiolaeth gynnar, ar niferoedd bach, yn bennaf ar yr effeithiau y mae'n haws eu mesur. Wedi dweud hynny, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn galonogol.

## Tystiolaeth bod y cynllun yn cynnig cymhellion ariannol gwell

Mae'r cynllun sy'n weithredol bellach, ac sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pobl sengl a chyplau heb blant yn cynnwys y canlynol:
- hawl i gael yr un swm â'r system a etifeddwyd pan na fyddant yn gweithio;
- gallu i ennill hyd at £111 y mis heb golli Credyd Cynhwysol, faint bynnag o oriau a gaiff eu gweithio mewn wythnos;
- pob £1 ychwanegol o dâl sy'n weddill yn golygu 65 ceiniog o ostyngiad mewn Credyd Cynhwysol h.y. isafswm cynnydd ariannol o 35 ceiniog am bob £1 ychwanegol o dâl sy'n weddill.

Mae'r rheolau syml hyn yn sicrhau bod gwaith bob amser yn talu, mewn sawl achos yn llawer mwy o gymharu â'r system bresennol. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer pobl sy'n ennill cyflog isel, sy'n golygu bod budd gwirioneddol o roi cynnig ar hyd yn oed ychydig oriau o waith.


Mae'r siartiau drosodd yn dangos y sefyllfa ar gyfer pedwar hawlydd gwahanol. Er enghraifft, mae unigolyn ifanc sengl sy'n gweithio 20 awr yr wythnos ar yr isafswm cyflog, sydd â rhent o £85 yr wythnos, bron £170 yn well ei fyd bob mis o gymharu â'r system bresennol. Yn yr un modd, mae'r siartiau ar gyfer rhiant unigol a pherson anabl yn dangos y budd gwirioneddol a geir o ddileu'r rheol 16 awr bresennol lle y gallai olygu bod unigolion ond yn gallu gweithio nifer fach o oriau.

Gall Credyd Cynhwysol wneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyflogwyr yn ogystal â'u staff. Mae'n cynyddu'r hyblygrwydd i weithluoedd ddelio â newidiadau mewn galw. Er enghraifft, gall cyflogeion bellach dderbyn oriau ychwanegol o waith, a pheidio â phoeni y byddant yn torri rheolau oriau penodol. Dylai defnyddio Gwybodaeth Amser Real ar enillion y mae cyflogwyr eisoes yn ei rhoi i CThEM i gyfrifo Credyd Cynhwysol olygu bod llai o ymholiadau gan staff ynghylch cyflogau. Bydd pobl sy'n ceisio am swyddi wedi'u paratoi'n well ar gyfer gwaith, gan fod Credyd Cynhwysol yn gwella prosesau paratoi ar gyfer gwaith ac yn gwella sgiliau digidol a chyllidebu.


**Ffigur 8: Effaith ar incymau, cyn ac ar ôl Credyd Cynhwysol, wrth i oriau gwaith gynyddu**
Ar gyfer mathau penodol o hawlwyr, sy'n gweithio ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol

### Cymhellion rhwyddach

**Sengl - dros 25 - rhent o £65 yr wythnos**




**Gwahaniaeth mewn incwm net (sengl - dros 25 - rhent o £65 yr wythnos)**










**Dileu'r sefyllfa beryglus**

**Rhiant unigol - dros 25 - rhent o £120 yr wythnos - un plentyn - dim costau gofal plant**





**Gwahaniaeth mewn incwm net, Credyd Cynhwysol o gymharu â'r system bresennol (rhiant unigol - dros 25 - rhent o £120 yr wythnos - un plentyn - dim costau gofal plant)**




### Mwy o gymorth ariannol i'r rhai sydd ei angen

**Sengl - anabl - rhent o £96 yr wythnos**




**Gwahaniaeth mewn incwm net, Credyd Cynhwysol o gymharu â'r system bresenno (sengl - anabl - rhent o £96 yr wythnos**










### Helpu teuluoedd i mewn i waith

**Cwpwl - dros 25 - partner ddim yn gweithio - rhent o £96 yr wythnos - dau o blant - dim costau gofal plant**




**Gwahaniaeth mewn incwm net, Credyd Cynhwysol o gymharu â'r system bresennol (cwpwl - dros 25 - partner ddim yn gweithio - rheng o £96 yr wythnos - dau o blant - dim costau gofal plant)**




## Tystiolaeth bod hawlwyr Credyd Cynhwysol yn ymwybodol o'r cymhellion newydd, a'r anogaeth i gymryd mwy o gyfrifoldeb am chwilio am waith a chyllidebu

Mewn astudiaeth o 901 o hawlwyr Credyd Cynhwysol[6], gofynnwyd i'r sawl a oedd wedi cael Lwfans Ceisio Gwaith yn ystod y ddwy flynedd flaenorol gymharu'r profiad o gael Lwfans Ceisio Gwaith a'r profiad o gael Credyd Cynhwysol. Yn y rhan fwyaf o achosion nododd hawlwyr fod eu profiad o gael Credyd Cynhwysol yn well na'u profiad o gael Lwfans Ceisio Gwaith.

Mae tystiolaeth o'r Arolwg o Hawlwyr yn awgrymu bod agweddau at Gredyd Cynhwysol a gwaith yn gadarnhaol yn gyffredinol

- Roedd dwy ran o dair o'r farn bod Credyd Cynhwysol yn rhoi cymhelliant ariannol gwell i weithio
- Roedd dwy ran o dair yn cytuno ei bod yn haws deall rhwymedigaethau o dan Gredyd Cynhwysol

**Ffigur 9: Agweddau hawlwyr Credyd Cynhwysol sydd wedi cael Lwfans Ceisio Gwaith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf**




Ffynhonnell: Cam 1 yr Arolwg o Hawlwyr - https://www.gov.uk/government/publications/universal-credit-pathfinder-evaluation-interim-results-from-the-universal-credit-claimant-survey-wave-1

Sail: Hawlwyr Credyd Cynhwysol sydd wedi cael Lwfans Ceisio Gwaith yn ystod y ddwy flynedd diwethaf

6. Yn seiliedig ar Arolwg o 901 o hawlwyr Credyd Cynhwysol newydd rhwng mis Awst a mis Hydref 2013 https://www.gov.uk/government/publications/universal-credit-pathfinder-evaluation





I ddechrau, roedd lefelau is o ddealltwriaeth o'r buddiannau ariannol sy'n gysylltiedig â symud i mewn i waith, ond roedd staff a hawlwyr ar y cyfan yn deall rheolau amodoldeb a'r Ymrwymiad Hawlydd. Ac roedd hawlwyr Credyd Cynhwysol (81%) yn fwy tebygol na hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith (74%) o ystyried bod y system budd-daliadau yn effeithiol o ran annog pobl i ddychwelyd i'r gwaith. Mae hyn yn ddechrau da o ran newid agweddau at les a gwaith.

Roedd mwyafrif mawr o ymatebwyr yr arolwg yn gadarnhaol ynghylch y cyfweliad Credyd Cynhwysol cychwynnol pan ofynnwyd iddynt ynghylch eu profiad o brosesau Credyd Cynhwysol:

- roedd 94% o hawlwyr o'r farn bod eu cynghorydd Lwfans Ceisio Gwaith wedi egluro'r amodau sy'n gysylltiedig â hawlio Credyd Cynhwysol yn dda;
- roedd 92% o hawlwyr yn cytuno eu bod yn cael eu hannog i ddod o hyd i waith neu i gynyddu faint roeddent yn ei weithio;
- roedd 85% o'r farn bod gan staff Credyd Cynhwysol y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol; ac,
- roedd 85% o hawlwyr Credyd Cynhwysol yn cytuno bod y cyngor a'r cymorth a gynigir gan yr Hyfforddwr Gwaith yn addas ar gyfer eu hanghenion a'u hamgylchiadau personol.


edd ymchwil ansoddol gyda hawlwyr hefyd yn archwilio profiadau o'r cyfweliad Credyd Cynhwysol cychwynnol. Roedd llawer o hawlwyr o'r farn bod y cyfweliad yn syml ac yn ddefnyddiol, ac roedd cyfweliadau fel arfer yn cynnwys cyflwyniad manwl i Gredyd Cynhwysol, yn cynnwys:

- trosolwg o'r broses Credyd Cynhwysol yn cynnwys taliadau, sancsiynau a sut i gofnodi newid mewn amgylchiadau;
- esboniad o Baru Swyddi Ar-lein a sut y gall hawlwyr roi tystiolaeth eu bod wedi chwilio am swydd;
- trafodaeth ynghylch chwilio am waith yn seiliedig ar brofiad hawlwyr; a
- cwblhau'r Ymrwymiad Hawlydd.

Mae hawlwyr Credyd Cynhwysol yn cael cyfarfodydd adolygu rheolaidd, a elwir yn Adolygiadau Chwilio am Waith. Rhoddodd mwyafrif helaeth o'r sawl y gofynnwyd iddynt am eu safbwyntiau ynghylch y broses hon ymatebion cadarnhaol yn cynnwys:

- roedd 78% yn cytuno bod y cyngor a gawsant yn addas ar gyfer eu hanghenion a'u hamgylchiadau personol;
- roedd 79% yn cytuno bod gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol;
- roedd 85% yn cytuno eu bod yn cael eu hannog i ddod o hyd i waith neu i gynyddu faint roeddent yn ei weithio;
- roedd 84% yn cytuno bod y cyfarfodydd adolygu yn golygu eu bod yn fwy tebygol o fodloni gofynion yr Ymrwymiad Hawlydd;
- roedd 64% yn cytuno bod y cyfarfodydd adolygu yn golygu eu bod yn fwy tebygol o ddod o hyd i waith; ac
- roedd 85% yn cytuno bod y staff yn ystyried faint o amser oedd ganddynt i weithio wrth asesu eu Hymrwymiad Hawlydd.

**Ffigur 10: Canran yr hawlwyr Credyd Cynhwysol oedd yn cytuno â'r datganiadau canlynol**




Ffynhonnell: yr Arolwg o Hawlwyr - Cam 2 (3 mis i mewn i'r hawliad)
Sail: Holl ymatebwyr Credyd Cynhwysol

Mae'r broses gwneud cais newydd yn gweithio'n dda. Mae dros 90% o hawlwyr Credyd Cynhwysol yn gwneud eu cais ar-lein. Nododd hawlwyr eraill eu bod yn manteisio ar y dulliau eraill sydd ar gael - dros y ffôn neu yn bersonol yn y Ganolfan Gwaith - i'w helpu i wneud cais llwyddiannus.

Dim ond os oes partneriaeth lwyddiannus rhwng hawlwyr a staff y gall Credyd Cynhwysol gyflawni canlyniadau. Nododd staff DWP fod Credyd Cynhwysol yn cyflwyno'r math o newidiadau y maent wedi bod am eu gweld ers peth amser. Mae'n galonogol iddynt gael trafodaeth fwy agored ac adeiladol gyda hawlwyr am sut i'w cael i ddychwelyd i'r gwaith. Yn hytrach nag ymgymryd mewn prosesau cymhleth a hir, nododd Hyfforddwyr Gwaith bod ganddynt fwy o amser i'w dreulio gyda hawlwyr a mwy o hyblygrwydd i roi gwasanaeth personol.

Yn ogystal â chyfuno nifer y budd-daliadau lles, nod Credyd Cynhwysol yw newid diwylliant y broses o gael budd-daliadau, gan annog unigolion i ddod yn hunanddibynnol, yn annibynnol yn ariannol ac yn gynhyrchiol (mewn gwaith). Mae symud i system dalu fisol ac annog mwy o gyfrifoldeb ar gyfer hawlwyr i reoli eu cyllid p'un a ydynt mewn gwaith neu allan o waith yn un o brif nodweddion Credyd Cynhwysol. Mae'r newid i daliadau misol yn cael ei groesawu gyda mwy na thri chwarter (78%) o hawlwyr Credyd Cynhwysol yn teimlo'n hyderus ynghylch eu gallu i gyllidebu.





## Tystiolaeth gynnar bod newid canfyddiadau ac agweddau yn arwain at newid ymddygiad

Mae annog hawlwyr i chwilio'n galetach am waith yn elfen bwysig o Gredyd Cynhwysol. Mae tystiolaeth gan arolygon hawlwyr yn dangos bod hawlwyr Credyd Cynhwysol yn gwneud mwy i chwilio am waith; mae hawlwyr Credyd Cynhwysol yn nodi eu bod yn treulio dwywaith cymaint o amser yn chwilio am swydd o gymharu â hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith, ac mae'r patrwm hwn yn parhau am chwe mis ar ôl iddynt wneud cais. .

**Ffigur 11: Cymharu'r amser y mae hawlwyr Credyd Cynhwysol yn ei dreulio yn chwilio am swydd â hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith**

| Oriau a dreuliwyd yn chwilio am swydd yn ystod y saith diwrnod diwethaf | | UC | JSA |
|---|---|---|---|
| | 1 mis* | 27 | 14 |
| | 3 mis* | 28 | 14 |
| | 6 mis* | 29 | 16 |

*Tua 1 mis, 3 mis a 6 mis yn y drefn honno ar ôl gwneud cais
Ffynhonnell: Gwerthusiad o Gynllun Braenaru Credyd Cynhwysol
Sail: Pob hawlydd nad ydyw mewn gwaith

Awgrymodd cam cyntaf yr Arolwg o Hawlwyr hefyd fod hawlwyr Credyd Cynhwysol wedi gwneud cais am fwy o swyddi yn ystod y saith diwrnod diwethaf (tua 16) o gymharu â hawlwyr tebyg sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith (tua 11). Erbyn Cam 2 a Cham 3, roedd y gwahaniaeth wedi lleihau, gyda hawlwyr Credyd Cynhwysol yn nodi eu bod wedi gwneud cais am 14 o swyddi yn ystod yr wythnos ddiwethaf o gymharu â thua 13 o swyddi ar gyfer hawlwyr tebyg sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith chwe mis ar ôl gwneud y cais cychwynnol. Dros amser, gellid bod wedi disgwyl i nifer y ceisiadau am swyddi ostwng, ac nid yw'n bosibl nodi p'un a yw'r gwelliant ymddangosol o ran Lwfans Ceisio Gwaith o ganlyniad i welliant ym mherfformiad annibynnol safleoedd Lwfans Ceisio Gwaith, neu p'un a oedd rhywfaint o'r hyn a ddysgwyd drwy gael sgyrsiau mwy uniongyrchol gyda hawlwyr Credyd Cynhwysol yn helpu hefyd i wella perfformiad mewn safleoedd eraill.

## Tystiolaeth gynnar bod y camau gweithredu hyn yn arwain at fwy o waith

Mae'n dal yn gynnar iawn i wneud honiadau cryf ar gyfer yr agwedd hon ar Gredyd Cynhwysol. Ond ceir rhywfaint o dystiolaeth o dair ffynhonnell.

Ceir sawl enghraifft gan staff rheng flaen o hawlwyr yn derbyn gwaith nad yw staff o'r farn fydd ei wedi digwydd heb Gredyd Cynhwysol. Yn nodweddiadol, ceir enghreifftiau lle mae hawlydd wedi derbyn swydd ag oriau cyfyngedig, neu am gyfnod cyfyngedig, gyda'r sicrwydd na fyddai gwneud hynny yn peryglu incwm ei aelwyd pan ddaw'r swydd i ben. Ceir tair enghraifft mewn astudiaethau achos ar y tudalennau canlynol.

## Astudiaeth achos 3:

### Stori John

Roedd hyblygrwydd Credyd Cynhwysol yn ddelfrydol i John Leathely o Harrogate gan ei fod wedi cael sawl rôl dros dro yn y gorffennol ond roedd yn rhwystredig gorfod cofrestru a dadgofrestru bob tro o dan Lwfans Ceisio Gwaith.

Eglura hyfforddwr gwaith John, Martyn Hunt: “Pan wnes i gyfarfod John am y tro cyntaf roedd newydd orffen gwaith dros dro gyda chwmni gweithgynhyrchu trydanol. Eglurais sut y byddai ei hawliad Credyd Cynhwysol dal yn agored ac yn addasu gyda’i enillion fel y byddai’n parhau i gael cymorth yn ystod cyfnodau pan fyddai allan o waith a hyd at pan fyddai’n ennill digon i fod yn annibynnol yn ariannol.

“Roedd hyn yn ddelfrydol i John gan ei fod yn aml yn derbyn gwaith dros dro ac roedd hefyd yn awyddus i weithio oriau ychwanegol pan fyddent ar gael. O dan Lwfans Ceisio Gwaith roedd hyn yn golygu colli ei fudd-dal os byddai’n gweithio mwy na 16 awr yr wythnos a phob tro y byddai contract yn dod i ben, byddai’n rhaid iddo gofrestru eto.

“Cyfeiriais John at asiantaeth recriwtio leol, Brooke Street, a oedd yn chwilio am staff dibynadwy. Roedd yn ymgeisydd delfrydol a chafodd ei dderbyn ar unwaith. I ddechrau, cynigiwyd contractau byrdymor a hyd yn oed dyddiol iddo yr oedd yn hapus i’w derbyn gan wybod na fyddai’n wynebu’r rhwystrau gweinyddol sy’n gysylltiedig â Lwfans Ceisio Gwaith. Gan ei fod mor awyddus, adeiladodd gydberthynas ardderchog â’r asiantaeth a daethant o hyd i gyfleoedd tymor hwy iddo yn gyflym. Mae bellach wedi bod yn gweithio ers pedwar mis gyda’r un cyflogwr, gan feithrin y sgiliau a’r profiad i’w helpu i wneud cais am rolau â chyflogau uwch.

## Astudiaeth achos 4:

### Stori Ben

Gadawodd Ben, sy’n 19 oed, y coleg ar ôl gwneud ei arholiadau Safon Uwch ond nid oedd ganddo syniad beth yr oedd am ei wneud. Nid oedd erioed wedi cael profiad o fod mewn cyflogaeth ac nid oedd ganddo lawer o hyder oherwydd hynny. Bu’n ddi-waith am naw mis ac roedd yn gas ganddo hynny. Roedd yn teimlo’n rhwystredig o fod yn segur.

Cofrestrodd Ben ar gyfer Credyd Cynhwysol a chadwodd Lorraine ei Hyfforddwr Gwaith ef yn brysur yn chwilio am waith, yn mireinio ei CV a llenwi ceisiadau. Ni chlywodd yn ôl ynghylch nifer o geisiadau oedd yn ddigalon ond cododd Lorraine ei galon drwy ei annog i ddal ati.

Cafodd Lorraine brofiad gwaith i Ben yn B&Q a mwynhaodd ei hun yn fawr. Ar ôl y lleoliad wyth wythnos roedd yn gobeithio y byddai’n cael ei gadw ymlaen. Cafodd wahoddiad i ddiwrnod recriwtio a chafodd swydd. Mae ganddo gontract i weithio wyth awr yr wythnos ond yn aml mae’n gweithio tua 40 awr yr wythnos. “Rwy’n teimlo’n llawer hapusach pan fyddaf yn gweithio. Mae’r swydd hon wedi rhoi ymdeimlad o bwrpas i mi ac rwy’n gobeithio datblygu i lefel rheolwr.”

Mae Ben yn dal i gael incwm bach gan Gredyd Cynhwysol, ond mae’n lleihau wrth i’w oriau gynyddu.





## Astudiaeth achos 5:

### Stori Mark

Pan gollodd Mark ei swydd argraffu, nid oedd yn dychmygu y byddai byth yn dod o hyd i rôl arall. Bu’n gweithio yn y diwydiant am 30 mlynedd ers gadael yr ysgol yn 16 oed.

“Roeddwn yn gwybod y byddai’n rhaid i mi ailhyfforddi rywbryd gan fod y diwydiant yn mynd yn hen ffasiwn, ond doeddwn i ddim wedi disgwyl colli fy swydd. Roedd chwilio am swydd newydd yn codi ofn arnaf ond roeddwn yn teimlo’n llawer gwell ar ôl mynd i’m canolfan gwaith leol a chwrdd â’m Hyfforddwr Gwaith Cynhwysol, Nicola.”

Gwnaeth Mark ei gais am Gredyd Cynhwysol dri diwrnod ar ôl colli ei swydd ym mis Tachwedd 2013. Nid oedd Mark yn gyfarwydd iawn â defnyddio’r rhyngrwyd, felly helpodd Nicola ef i drefnu cyfeiriad e-bost ac i lunio CV.

“Gwnaeth i mi sylweddoli bod gennyf sgiliau cryf nad oeddwn erioed wedi ystyried y byddai cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi - pethau sylfaenol fel dibynadwyedd a phrydlondeb.”

Dywedodd Nicola wrtho am gyrsiau hyfforddi y gallai fynd arnynt i’w helpu i deimlo’n fwy hyderus ar-lein. Cafodd ei gyflwyno ganddi am swydd mewn cwmni post hefyd.

“Fel argraffydd, bûm yn trin llawer o ddeunydd sensitif felly roedd o’r farn y byddwn yn ymgeisydd perffaith i’r swydd. Bu’n rhaid i mi gael prawf ar-lein fel rhan o’r broses ddethol, a byddai hyn wedi codi ofn arnaf heb Nicola i arwain y ffordd.”

Dim ond ychydig wythnosau ar ôl colli ei swydd, cafodd Mark gynnig swydd fel postmon. Dechreuodd weithio dau ddiwrnod yr wythnos, ond ar ôl pythefnos daeth ei swydd yn un llawn amser. Mae bellach yn ennill digon i beidio â hawlio Credyd Cynhwysol a bydd ei achos ar agor am chwe mis rhag ofn y bydd angen cymorth arno.

Mae dadansoddiad o ddata gweinyddol yn awgrymu y byddai hawlwyr Credyd Cynhwysol wedi rhoi’r gorau i gael Lwfans Ceisio Gwaith (pe byddent wedi bod yn ei gael) yn gyflymach na grŵp cymharol debyg o hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith. Canfu’r dadansoddiad y byddai 60% o hawlwyr Credyd Cynhwysol wedi gadael Lwfans Ceisio Gwaith 90 diwrnod ar ôl gwneud cais cychwynnol o gymharu â 54% o hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith.[7]

Yn drydydd, ac yn fwyaf uniongyrchol, mae’r arolwg o hawlwyr yn dangos bod hawlwyr Credyd Cynhwysol ychydig yn fwy tebygol o fod wedi cael rhywfaint o waith yn ystod y chwe mis diwethaf. Nododd tua 69% o hawlwyr Credyd Cynhwysol eu bod wedi gweithio ar ryw adeg yn ystod y chwe mis ar ôl gwneud eu cais, o gymharu â 65% o hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith mewn rhannau eraill o’r DU (a fyddai wedi bod yn gymwys i gael Credyd Cynhwysol fel arall).

7. https://www.gov.uk/government/statistics/comparison-of-universal-credit-and-jobseekers-allowance-outcomes

### Astudiaeth achos 6:

**Mae Petra Kelly, Blue Arrow yn rhannu ei safbwyntiau ar Gredyd Cynhwysol**



Fel asiantaeth recriwtio gyda changhennau ledled y DU rydym yn gweithio gyda llawer o gwmnïau mwyaf y DU ar draws llawer o sectorau gwahanol yn cynnwys lletygarwch, gweithgynhyrchu, manwerthu a thrafnidiaeth.

Prif flaenoriaeth y cwmnïau hyn yw recriwtio'r bobl gywir ar gyfer eu busnes ac mae Credyd Cynhwysol yn golygu ein bod mewn sefyllfa gryfach i allu eu helpu. Mae hyn am fod gan y sectorau hyn yn aml lawer o rolau rhan amser a dros dro i'w llenwi ac felly maent fel arfer yn chwilio am bobl sy'n barod i weithio oriau hyblyg er mwyn bodloni gofynion eu cyfnodau prysuraf.

Mae symlrwydd Credyd Cynhwysol yn golygu y gall hawlwyr weithio mwy neu lai o oriau, gan eu galluogi i ennill mwy heb golli eu holl fudd-daliadau. Mae'n dda iddynt ac yn wych i fusnes hefyd.

Un o'r sgil-effeithiau cadarnhaol yw bod Credyd Cynhwysol yn ei gwneud yn haws i bobl ddatblygu yn eu gyrfa sy'n eu hannog i fod eisiau mwy. Mae hyn yn golygu bod cronfa ehangach o ymgeiswyr ar gael i ni y gallwn eu helpu i wireddu eu potensial drwy eu cyfateb i swyddi gwerth chweil.

Gall y system bresennol o fudd-daliadau a chredydau treth fod yn ddryslyd i bobl ac yn aml mae'n golygu, er y gall hawlwyr fod yn awyddus i weithio, maent yn gwrthod cyfleoedd i weithio mwy nag 16 awr yr wythnos am eu bod yn poeni beth y gallai ei wneud i'w hawliadau budd-daliadau. Bydd Credyd Cynhwysol yn rhoi diwedd ar hyn sy'n rhywbeth rydym yn ei groesawu'n fawr."





# 6. Casgliad

O ystyried natur drawsnewidiol y rhaglen hon a'r effaith uniongyrchol a gaiff ar filiynau o aelwydydd, mae'n rhaid i'r Adran gyflwyno Credyd Cynhwysol yn ofalus dros amser.

Mae'r dull *Profi a Dysgu* - sy'n profi bwriad polisi ac yn gwneud gwelliannau parhaus yn seiliedig ar dystiolaeth i lywio prosesau trawsnewid - yn hanfodol yn hyn o beth.

Rhaid i raglen o'r maint hwn hefyd gael ei chyflwyno mewn partneriaeth, gan gydweithio ag Awdurdodau Lleol, Cymdeithasau Tai, cyflogwyr a phartneriaid eraill er mwyn gwella'r gwasanaeth a gynigir i aelwydydd, a sicrhau'r broses o drawsnewid i Gredyd Cynhwysol yn seiliedig ar dystiolaeth a phrofiad.

Mae'r dystiolaeth gynnar o effeithiau Credyd Cynhwysol yn galonogol hyd yma, yn enwedig ar gyfer rhaglen mor drawsnewidiol ar y cam cyflwyno cynnar hwn.

Mae staff a hawlwyr yn ffafrio Credyd Cynhwysol o gymharu â'r system flaenorol a etifeddwyd, ac yn sgil hynny mae aelwydydd yn treulio mwy o amser yn chwilio am waith. Ceir arwyddion bod pobl eisoes yn ymateb i system les gydlynol, well, sy'n cynnig cymhellion ariannol gwell i bobl gael gwaith a gweithio mwy.

Wrth i'r gwasanaeth Credyd Cynhwysol dyfu ar draws Prydain Fawr, bydd yr Adran yn parhau i fesur yr effeithiau, yn enwedig ar ganlyniadau cyflogaeth, a bydd yn cyhoeddi gwerthusiadau, yn cynnwys adroddiadau ar y buddiannau a geir pan fydd mwy o bobl yn symud i mewn i waith.

Drwy gyflwyno Credyd Cynhwysol drwy'r dull *Profi a Dysgu*, bydd yr Adran yn sicrhau gwerth economaidd Credyd Cynhwysol dros amser, gan wireddu potensial y broses o drawsnewid i Gredyd Cynhwysol mewn modd diogel.

Universal Credit
Credyd Cynhwysol

Cynhyrchwyd gan
Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Hydref 2014
www.gov.uk/dwp